

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Ebrill 2015

Rhif 454

50c

Diwedd Cyfnod yn y Feddygfa



Daeth diwedd cyfnod ym Meddygfa'r Hen Orsaf ar 31 Mawrth ar ymddeoliad Dr Gareth Jones ar ôl 30 mlynedd fel meddyg teulu yn y Dyffryn, a Mrs Helen Evans a fu'n Weinyddwraig yn y Feddygfa ers 2004. Hoffai'r Llais ddiolch iddynt am eu gwasanaeth i'r ardal dros y blynyddoedd, a dymunwn yn dda iddynt ar eu hymddeoliad

DARLITH GOFFA DAFYDD ORWIG 2015

"T.H. Parry Williams, yr Almaen a'r Rhyfel Byd Cyntaf"

Traddodir y ddarlith gan

Angharad Price

yn

Llyfrgell Bethesda

Nos Lun, 8fed Mehefin, 2015

7.30 o'r gloch

Croeso Cynnes i Bawb

Mynediad am Ddim

Diffyg ar yr Haul Yr olygfa o Ddyffryn Ogwen



Tua 9:35 ar fore'r 20fed o Fawrth daeth cyfnod o dywyllwch dros y Dyffryn oherwydd clip ar yr haul. Er mai ger yr Arctig y gellid gweld y diffyg ar ei fwyaf, roedd bron i 95% o'r haul wedi ei guddio i ninnau hefyd.

Dyma'r clip haul mwyaf i ni ei weld ers 1999, ac ni welwn un arall fel hyn tan 2026. Tynnwyd y llun gan Alun Davies, Penrallt, Ffordd Abercaseg.

Gwobr Aur i Ysgol Rhiwlas

Llongyfarchiadau mawr i blant a staff Ysgol Rhiwlas ar dderbyn Gwobr Aur Awyr Agored yn ddiweddar. Buont yn brysur yn gwneud gwaith ac yn dysgu am yr amgylchedd a sut i fwynhau yr awyr agored trwy brofi llawer o weithgareddau o gerdded Yr Wyddfa i syrffio a chanwio y Fenai dros y tymhorau diweddar.

Ysgol Rhiwlas yw'r ysgol gynradd gyntaf yng Ngwynedd i dderbyn y wobr. Maent hefyd newydd dderbyn gwobr aur ysgolion gwyrdd. Da iawn chi a daliwch ati.

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts
hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn
cylch@tiscali.co.uk

Lowri Roberts
l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn
dewision@hotmail.co.uk

Fiona Cadwaladr Owen
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

Siân Esmor Rees
sian_esmor@btinternet.com

Neville Hughes
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
trystanrp1@gmail.com

Walter W Williams
waltermenai@yahoo.co.uk

SWYDDOGION

Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor, Bethesda,
Gwynedd LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd Hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Radhub,
Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais Drwy'r Post:
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygydd y mis hwn gan Dewi A. Morgan.

Golygydd mis Mai fydd Lowri Roberts, 8 Pen y Ffriddoedd, Tregarth, LL57 4NY (01248 600490) l.roberts11@btinternet.com a Walter W. Williams, 14 Erw Las, Bethesda, LL57 3NN (01248 601167) waltermenai@yahoo.co.uk

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 29 Ebrill, os gwelwch yn dda. Plygu nos Iau, 14 Mai, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

DYDDIADUR Y DYFFRYN

Ebrill

18 Marchnad Pesda.
Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.30.

18 Bore Coffi Cymdeithas Jerusalem.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.

18 Apêl Eleanor Jones. Adloniant a Soch Rhost. Clwb Criced a Bowlio Bethesda am 7.30.

30 Merched y Wawr Bethesda. Môn ar Lwy gyda Helen Holland. Cefnfaes am 7.00.

Mai

07 Etholiad Cyffredinol.

07 Sefydliad y Merched Carneddi. Cwis gan Arwyn Oliver.Cefnfaes am 7.00.

09 Bore Coffi Cymorth Cristnogol.
Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.

09 Marchnad Ogwen.
Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.30.

11 Merched y Wawr Tregarth.
Homeopatheg gydag Elin Alaw.
Festri Shiloh am 7.30.

14 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.

14 Cymdeithas Eglwys Jerusalem.
Gwibdaith.

17 Cymanfa Ysgolion Sul Eglwysi Annibynnol Bangor a Bethesda.
Capel Carmel am 10.30.

19 Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes am 7.00.

Mehefin

06 Bore Coffi Côr y Penrhyn. Cefnfaes.
9.30 – 12.00

13 Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen.

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

Gwledydd Prydain - £20

Ewrop - £30

Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
☎ 01248 600184



Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Ebrill

£30.00	(48)	Cemlyn Jones, 3 Erw Las, Bethesda.
£20.00	(160)	Audrey Griffith, Talgareg, Llandysul.
£10.00	(152)	Jean Ogwen Jones, Stad Coetmor, Bethesda.
£5.00	(149)	Minnie Lewis, Porthaethwy.

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Rhoddion i'r Llais

£5.00	Miss Megan Hughes, Lôn y Plas, Rhiwlas.
£10.00	Er cof am Mrs G. Mary Jones, 4 Tai'r Eglwys, Bethesda.
£10.00	Er cof annwyl am Margaret Jane Tomlinson, 13 Rhos y Coed, Bethesda, oddi wrth Raymond a Carol.
£10.00	Mrs. Bessie Buckley, Maes Ogwen, Tregarth.

Diolch yn Fawr

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn swyddfa'r deillion, Bangor

☎ 01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Tasg,
50 Stryd Fawr Bethesda,
LL57 3AN ☎ 07902 362 213
post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
☎ 01248 601669

Hysbysebu yn y Llais

I hysbysebu yn Llais Ogwan ac i drafod telerau a'ch holl anghenion cysylltwch â:

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Cofiwch hefyd roi gwybod am unrhyw weithgareddau y gallwn eu cynnwys yn Nyddiadur y Dyffryn ac ar dudalen Beth sy'n Digwydd yn y Dyffryn.

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Annwyl Olygydd

Cymorth Cancer Macmillan,
Llawr 1af,
1 Ffordd Yr Hen Gae,
Parc Bocam,
Pencoed,
Pen-y-bont
CF35 5LJ

Annwyl Syr / Madam

Rwy'n ysgrifennu i ofyn i'ch darllenwyr i gael Noson i Mewn er budd Macmillan y mis Mai hwn.

Y cyfan yw Noson i Mewn Macmillan yw cyfle i gael ffrindiau draw i sgwrsio, chwerthin a chael rhywbeth i'w fwyta ac i'w yfed. Does dim angen dod o hyd i dacsï am 2 y bore a does dim ciw wrth y bar – yn lle hynny mae Macmillan eisïau ichi fwynhau amser da gyda'ch hoff bobl.

Y llynedd cododd Noson i Mewn dros £2m i Macmillan.

Mae Noson i Mewn bellach yn ei thrydedd flwyddyn. Mae'n ffordd hwyliog, ddidrafferth ichi helpu i godi arian i Macmillan ac i sicrhau nad oes neb yn wynebu canser ar ei ben ei hun.

Mae Macmillan eisïau i bobl ledled Cymru gael Noson i Mewn gyda ffrindiau'r mis Mai hwn i'n helpu i roi cymorth i bobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser.

Mae'n noson hawdd ei threfnu a'r peth gorau yw hyn, cewch chi amser da gyda ffrindiau a chefnogi Macmillan ar yr un pryd. Byddwn ni hyd yn oed yn gwneud yn siŵr y cewch chi git Noson i Mewn i roi dechrau gwych i'r noson.

Mae miliwn o resymau dros gael Noson i Mewn y mis Mai hwn. I wneud gwahaniaeth, coffestwrch eich diddordeb ar <http://nightin.org.uk> arhoswch am eich cit Noson i Mewn am ddim a gofynnwch i'ch ffrindiau gyfrannu beth bynnag y gallan nhw ei fforddio i'ch Noson i Mewn.

I gael gwybodaeth, neu gymorth gan Macmillan, ffoniwch ni'n rhad ac am ddim ar 0808 808 00 00 (dydd Llun i ddydd Gwener, 9am–8pm) neu ewch i macmillan.org.uk.

Diolch a chofion gorau,
Susan Morris,
Rheolwr Cyffredinol Macmillan
01656 867 960

Annwyl Olygydd,

Hoffwn gymryd y cyfle yma drwy dudalennau'r 'Llais' i geisio goleuo rhai unigolion parthed hanes lleol yr ardal yma. Cyfeiriaf yn benodol at erthygl dan y pennawd 'Ras Mynydd Moel y Ci' ymddangosodd ar y dudalen gefn yn rhifyn Mawrth 2015.

Dangosodd yr Athro Melville Richards a'r hanesydd R.O. Roberts bod yr enw ar y bryn uwchlaw Pentir a Rhiwlas yn tarddu o'r enw gwreiddiol sef, Moel Leucu / Moel Lleucu. Mae gennyf gonsyrn bod dieithriaid i'r ardal yn camddehongli enwau lleol ac os nad ydym yn wylïadwrus rwyf yn rhagweld y dydd yn dod pan enwir y bryn dan sylw yn 'Dog Hill'.

Yn gywir iawn,
Cynrig Hughes

Teithio'n Bell i Blygu'r Llais



Dyma lun o Maria o'r Iseldiroedd, a fu'n cynorthwyo yn noson blygu'r Llais ym Mis Mawrth. Diolch iddi am ei chymorth parod!



Hywel
Williams
Llais Cryf Lleol i
Ddyffryn Ogwen

Etholiad Cyffredinol 7 Mai 2015



Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☎ **601592**

Joe Hughes,
Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ **601902**

Diolch
Dymuna Eric, Geraint, Gareth a’r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl – Mrs. Mary Jones, 4 Tai’r Eglwys.

Diolch yn arbennig iawn i Gareth Williams am ei drefniadau sensitif a phroffesiynol.

Llawer o ddiolch i staff Ysbyty Gwynedd a staff Macmillan am eu gofal.

Diolch hefyd am y rhoddion hael tuag at Gymorth Cancr Macmillan.

Cartref Newydd
Croeso cynnes i’w chartref newydd ym Maes y Garnedd i Mrs. Vera Morgan.

Cydymdeimlo
Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs. Lynne Ellis a’r plant, Tŷ Capel Jerusalem, yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl.

Marwolaeth
Yn Ysbyty Glan Clwyd, ar 24 Mawrth, bu farw Mr. Herbert Edward Williams, 4 Parc Moch, Bryn Bella, gynt o’r Gerlan. Roedd yn 80 mlwydd oed ac yn briod annwyl i Mrs. Anwen Williams, yn dad, llys dad, taid a brawd annwyl a hoffus.

Merched y Wawr, Cangen Bethesda

Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen fel arfer ar nos Iau Mawrth 26ain, yng nghanolfan Cefnfaes. Elina Owen oedd y Llywydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Doris Shaw, Pat Corns ac Eurwen Morris.

Llongyfarchwyd Jennie Jones am ddod yn hen nain eto, i efeilliaid y tro yma. Ganwyd dwy ferch fach i Ceri Ogwen ei hwyres. Anfonwyd cofion at Eirlys Cefni Jones, ei brawd dal yn wael, i Glenys Clark sydd mewn cartref ym Mangor ac i Dilys Jones, ei brawd wedi bod yn yr ysbyty.

Cyhoeddwyd fod Elina a Jennie wedi bod yn "cadw'n ddistaw" i godi arian at blant rhannol ddall. Anfonwyd ffurflen i gasglu noddwyr o amgylch yr aelodau. Diolchwyd hwy am eu haelioni gan y llywydd.

Cyhoeddwyd rhai manylion am y wib daith ym Mai, gwneir y trefniadau diweddaraf mis nesaf pryd bydd Helen Holland yn ein diddanu.

Yn anffodus ni allodd y siaradwr fod yn bresennol ac yr oedd pawb yn siomedig. Er hynny cawsom noson ddifyr yn sgwrsio a chymdeithasu gyda phaned a bisged wedi ei pharatoi gan Medi Williams a Jean Northam. Enillwyd y wobr lwcus, rhoddedig gan Medi Williams, gan Eleanor Morris. Diolchwyd i bawb am fod yn bresennol gan y llywydd ac edrychir ymlaen at y cyfarfod nesaf ar Ebrill 30ain.

Cynhaliwyd ei angladd ar ddydd Mawrth, 31 Mawrth, yn Eglwys St. Mair, Tregarth, a mynwent dinas Bangor. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd yn eich profedigaeth.

Diolch
Hoffai Dilwyn, gŵr y ddiweddar Ann Elizabeth Jones, 22 Erw Las, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag ato ar yr adeg trist o golli Ann.

Hoffai ddiolch hefyd i’r Parchedig John Matthews am ei gefnogaeth a’i wasanaeth, ac i Mr. Martin Brown, yr organydd am ei wasanaeth ar ddiwrnod yr angladd. Diolch hefyd i Mr. Gareth Williams, yr ymgymmerwr, am ei drefniadau tawel a pharchus.

Diolch yn arbennig i feddygon a nyrsys Uned a Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, am eu gofal eithriadol o Ann yn ystod ei gwaeledd blin.

Hen Nain
Llongyfarchiadau i Mrs. Jennie Jones, 11 Bryn Caseg, ar yr achlysur hapus o ddod yn hen nain i efeilliaid ar 12 Mawrth.

Ysbyty
Cofion cynnes atoch chwi sydd wedi cael cyfnod yn yr ysbyty:- Mr. Hugh Jones, Maes Coetmor; Mrs. Bet Owen, Glan Ffrydlas; Miss Alison Evans, Garneddwen; Mr. Gareth Jones, Pantglas; Mr. Emyr Griffith, Plas Ogwen Mr. Eric Parry, Plas Ogwen.

Gorffwysfan
Cofiwch alw i roi eich enwau ar gyfer gwibdaith i Gaer fydd yn digwydd ar ddydd Mercher, 6 Mai.

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd
Cafwyd bore coffi hynod o lwyddiannus yng Nghaffi Coed y Brenin ar Sadwrn, 28 Mawrth, pan waned elw o £454.00. Diolch i Karen a Linda, yn y Caffi, ac i bawb am eu rhoddion caredig a’u cefnogaeth.

Eglwys Crist, Glanogwen

Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:

Sul Cyntaf pob mis
Cymun Bendigaid – 8.00am
Boreol Weddi – 11.00am
Ail a thrydydd Sul pob mis - Cymun Bendigaid Cymraeg – 11.00am
Pedwerydd Sul pob mis - Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00am
Pumed Sul - Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandegai a Pentir (lleoliad i’w gyhoeddi)
Pob bore Mercher am 10.30am - Cymun Bendigaid

Mae yna nifer o aelodau yn cwyno oherwydd amrywiol anhwylder. Dymunwn adferiad llwyr a buan i chwi gan fawr obeithio y byddwch cyn hir yn medru mynychu rhai o’r gwasanaethau.

Llyfrgell Bethesda

Mae’n Glasur!

Beth yw clasur? Oes gennych hoff lyfr Cymraeg yr ydych yn ystyried yn glasur? Os oes, mae ymgyrch yn mynd rhagddi ar hyn o bryd gan Lyfrgelloedd Cymru yn gofyn am enwebiadau a’r bwriad yw creu rhestr er mwyn annog eraill i’w darllen a’u mwynhau.

Mae cyfle i ddarllenwyr leded Cymru enwebu llyfr - nofel neu gasgliad o straeon byrion -trwy alw yn eu llyfrgell neu siop lyfrau lleol neu e-bostio tynewydd@llynyddiaethcymru.org a hynny cyn 30ain Mai. Cynigir gwobrau i’r tri enwebiad gorau, sef pryd o fwyd mewn bwyty moethus yng Nghymru neu £50.00.

Felly, os ydych newydd ddarllen llyfr rydych yn meddwl ei fod yn glasur cyfoes, neu os oes gennych ffefryn ers bore oes, galwch yn eich llyfrgell leol, ac enwebwch eich llyfr!

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â ni ar 01286 679463 neu llyfrgell@gwynedd.gov.uk

Yr Eglwys Unedig

Ar y cyntaf o Fawrth cafwyd oedfa Gŵyl Ddewi gan blant a phobl ifanc yr Ysgol Sul. Diolch iddynt a'u hyfforddwyr. Cafwyd paned ar ôl yr oedfa. Ymunodd y plant a'r rhai ifanc yn yr orymdaith Gwyl Ddewi i Neuadd Ogwen yn y prynhawn a chymerwyd rhan yn y cyngerdd, a phawb wedi mwynhau.

Mae'r faner a gynlluniwyd gan y bobl ifanc ar gyfer yr orymdaith yn ei lle haeddiannol iawn yng nghefn y Festri – ardderchog iawn. Gwenno Evans oedd yng ngofal Cyfarfod Gweddi ddechrau'r mis gyda help Jean Ogwen Jones ac Elina Owen, a diolch am noson ardderchog.

Cafwyd gwasanaeth Dydd Gweddi Merched y Byd ar Fawrth y 6ed, gyda merched o Eglwysi'r cylch yn cymryd rhan. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Alwena Puw a rhoddwyd anerchiad arbennig gan Elina Owen, gyda Helen Williams yn cyfeilio. Diolch i Ceri am drefnu'r cyfarfod a diolch i Ceri a Beryl am y lluniaeth ar y diwedd.

Y bore Sadwrn canlynol, cafwyd Bore Coffi llwyddiannus yng Nghanolfan y Cefnfaes a gwnaed elw o dros £400 tuag at offer sain i'r festri.

Cafwyd cyfarfod o'r Gymdeithas nos Iau Mawrth 12ed. Llywyddwyd gan Minnie a chafwyd noson ardderchog gan blant ifanc yr Eglwys a Pharti Dwylo Prysur, Carmel. Diolchwyd iddynt gan Joe Hughes a diolch i'r hyfforddwyr am eu hymroddiad i'r bobl ifanc. Rita, Doris a Bessie oedd yng ngofal y baned. Cafwyd gwasanaeth fore Sul y Blodau ardderchog dan ofal Ceri, gyda Joe Hughes yn cymryd rhan. Diolch iddynt.

Cyhoeddiadau am y mis

Ebr. 19 Mr. Dafydd Iwan (10 a 5 o'r gloch.)
Ebr. 26 Parchg. Olwen Williams (10); Parchg. Geraint Roberts (5)
Mai 03 Parchg. Emlyn Richards. (10 a 5).
Mai 10 Trefniant Mewnol (10) ; Oedfa Cymorth Cristnogol yn Eglwys Crist Glan Ogwen (5 o'r gloch)
Mai 17 Moliant y Plant yn y Felinheli (10).
Mai 24 Mr. Richard Lloyd Jones (10); Parchg. Marcus Robinson (5).

Noson er mwyn ffarwelio



Fe ddaeth meddygon a staff y Ganolfan Feddygol at eu gilydd ar nos Wener 27ain o Fawrth er mwyn dathlu ymddeoliad Dr Gareth Jones a Mrs Helen Evans. Bu Dr Jones yn Feddyg Teulu yn y Feddygfa ers 1985 a Mrs Helen Evans yn Weinyddwraig ers 2004. Dymuna pawb ymddeoliad hapus a hir i Dr Jones a Helen a diolch yn fawr iawn iddynt am eu hymroddiad a gwaith caled tros y blynnyddoedd.

Diolch
Dymuna Helen Evans, Llys Awel, Erw Las ddiolch o galon i'r Meddygon a holl staff y Feddygfa, teulu a ffrindiau am yr holl gardiau, anrhegion a'r dymuniadau gorau a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad yn ddiweddar.

Cyngerdd Llwyddiannus

Dyma lun a dynnwyd gan Janet Davies ar ddiwedd cyngerdd elusenol llwyddiannus dros ben a gynhaliwyd yn Neuadd Ogwen ar nos Sadwrn, 21 Mawrth. Roedd yr elw yn mynd at Gymdeithas M.S. Gwynedd a Môn.



Yr artistiaid oedd Côr Amasing, Côr y Penrhyn, Kate Griffiths, soprano, (gyda Catherine Barnett yn cyfeilio iddi), Kathy Hampson, (soddgrwth), gyda Neville Hughes yn cyflwyno.

Capel Bethania

Gwasanaethau

19 Ebrill – Parchg. Gwynfor Williams
3 Mai – Parchg. Dafydd Coetmor Williams.
17 Mai – CAU. Cymanfa Ysgolion Sul.

Oedfaon am 5.30 o'r gloch

Croeso cynnes i bawb

Cwiltiau i Ward y Plant



Dyma lun o Angharad Huws (ail o'r chwith) gyda rhai o aelodau staff Ward y Plant, Ysbyty Gwynedd, yn ddiweddar.

Yr achlysur oedd cyflwyno anrheg o 14 o gwiltiau oddi wrth aelodau Clwb Cwiltio Bethlehem Talybont, at ddefnydd y Ward. Er mai Angharad oedd yn trosglwyddo'r cwiltiau, hoffai bwysleisio mai gwaith aelodau'r Clwb oedd y cyfan.

Cylch Meithrin Cefnfaes



Mae cyfnod yn brysur dod i ben yn hanes Cylch Meithrin Cefnfaes. Ymhen hanner tymor bydd y cylch yn newid ei leoliad i Blas Ffrancon. Yno bydd cyfleusterau ac adnoddau newydd bendigedig i'r plant a'r staff.

Byddwn wrth gwrs yn colli Cefnfaes a'r awyrgylch ac yn enwedig yr atgofion melyn a hapus o'r holl flynyddoedd a dreuliodd llawer iawn o blant Dyffryn Ogwen yno. Bydd llawer ohonoch yn teimlo rhyw dristwch bod cyfnod yn dod i ben. Y dyddiau hyn mae popeth a phob dim yn gorfod cael ei gofnodi a'i redeg dan reolau pur haearnaidd. Daeth dyddiau yr "antis" i ben ac addysg ffurfiol yn dechrau mor gynnar a dwyflwydd oed. Ond rhaid symud gydag amser. Mae'r ddarpariaeth newydd yn wirioneddol hyfryd a bydd atgofion melyn i'r cenedlaethau i ddod hefyd. Mae stafelloedd mawr a lle i chwarae allan yn gaffaeliad mawr. Bydd tîm o staff arbennig yno, rhai wrth gwrs o'r cylch presennol a rhai newydd. Bydd mwy o wybodaeth yn y rhifyn nesaf o'r Llais.

Yn anffodus ni fydd Anti Kerry yn symud gyda ni. Felly bu rhaid ffarwelio a hi ar ddiwrnod olaf tymor y Gwanwyn. Roedd Kerry ar ei phedwaredd flwyddyn gyda ni yn y cylch a chafodd y plant amser difyr iawn yn ei chwmni. Dyma lun ohoni gyda'r plant ar ei diwrnod olaf ond un, a chafwyd cacen i rannu. Dymuna'r pwyllgor ddiolch iddi am ei gwaith a dymuno'n dda iddi yn y dyfodol. Dangosodd lawer o rieni eu diolchgarwch trwy roi amryw anrhegion i Kerry. Felly pob hwyl fawr Kerry a phob dymuniad da i'r dyfodol i ti a'r teulu.

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub
LL57 3LW
☎ **601880**

Diolch
Dymuna Yvonne, Peter, Janice a Gwyn a'r teulu oll ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur trist marwolaeth Mrs Gwyneth Jones, 4, Stryd Fawr, mam, nain a hen-nain annwyl iawn.

Llwyddiant Eisteddfodol
Llongyfarchwn Efa Glain Jones, Llwynpenddu Isaf ar ddod yn gyntaf ar yr unawd ac ail mewn cystadleuaeth cerdd dant yn Eisteddfod yr Urdd Sir Eryri. Hefyd Gwydion Rhys, Bron Arfon

ar ei lwyddiant yntau mewn dwy gystadleuaeth yn yr Eisteddfod Sir. Daeth yn gyntaf yng nghystadleuaeth unawd i fechgyn blwyddyn 7-9 ac hefyd yn yr unawd offerynnol. Pob hwy! i'r ddau ac i holl blant y Dyffryn yng Nghaerffili ym mis Mai.

Gwellhad Buan
Anfonwn ein cofion at Mrs Betty Williams, Fferm Bryn Owen, Geoffrey Brotherton ac Elfed Evans sydd wedi derbyn triniaeth mewn ysbytai'n ddiweddar.

Cydymdeimlo
Anfonwn ein cydymdeimlad i Ronald a Helen Evans, Enlli, ar achlysur trist marwolaeth tad Helen, Eifion Buckland ym Mangor.

Pen-blwydd Hapus
Llongyfarchiadau i Abbie Edwards, Ffordd Llanllechid ar ddathlu ei phen blwydd yn ddeunaw oed ar ddiwedd mis Mawrth.

Clwb Llanllechid

Mis Mawrth bu'r aelodau yn dathlu Gŵyl Ddewi. Cynhaliwyd cwis cerddorol a chafwyd te prynhawn arbennig wedi ei drefnu gan Ceinwen. Mawr yw ein diolch i Jonathan, rheolwr Londis, ac i Dean y rheolwr yn Tesco am eu rhoddion. Roedd sawl un yn methu bod yn bresennol oherwydd anhwylder a'r tywydd garw a gafwyd ar y diwrnod.

Anfonodd yr aelodau eu cofion at y rhai sydd heb fod yn dda yn ddiweddar ac at Betty sydd wedi treulio cyfnod yn yr Ysbyty ac hefyd Margaret a gafodd ddamwain a thorri ei braich.

Cafwyd cyfle i estyn croeso cynnes i ddwy aelod newydd, sef Ceri a Rhiannon. Rhoddwyd y wobr Iwcus gan Vera gyda Margaret Roberts yn ennill y wobr.



Y Criw yn Mwynhau y Gwledda

Capel Bethel Gwasanaethau

Ebrill
19 Parchg. Christopher Prew.
26 Parchg. Harri Parri.

Mai
03 Parchg. Euros Wyn Jones
10 Canon Idris Tomos
17 Parchg. Edmond B. Owen
24 Parch. Ddr Dafydd Wyn Wiliam

Oedfaon am 2.00 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

Nos Fercher, Ebrill 29 am 7 o'r gloch yn Ffestri Capel Carmel.

1. Sgwrs gan Sue Hopkins am **Hanes y teulu Davies, Wern Bach, 1840-1968.**
2. Creiriau diddorol o'r ardal! Dewch a nhw i'r cyfarfod!

CROESO CYNNES!

Capel Carmel

Yr Ysgol Sul
Aeth rhai o blant ac athrawon yr Ysgol Sul am dro i weld adeilad a mynwent hen Eglwys Llanllechid a hynny ar fore Sul braf ym mis Mawrth. Cawsant weld y cloc haul sydd wedi ei wneud o lechfaen sydd wedi ei osod wrth ymyl drws mawr yr Eglwys. Dadansoddwyd y rhifau Rhufeinig sydd uwchben y drws sy'n dynodi mai 1844 oedd blwyddyn agor yr adeilad presennol. Er mawr siom i'r plant nid oedd modd cael mynediad i'r adeilad ei hun. Cynhaliwyd gwasanaeth byr ar stepan drws yr Eglwys gyda'r plant yn canu dwy emyn a chyd-ddarlllen Salm Cant.



Y plant o flaen drws yr hen eglwys

Carmel, Llanllechid Trefn Gwasanaethau

Ebrill
19 Parchg. Geraint Hughes 5.00
26 Ein Gweinidog 5.00

Mai
03 Ein Gweinidog 5.00
10 Oedfa Cymorth Cristnogol 5.00
17 Cymanfa Ysgolion Sul yng Ngharmel 10.30.

Ysgol Sul 10.30

Dwylo Pysur, Nos Wener 6.30.

Croeso cynnes i bawb

Carmel, Llanllechid Te Bach

PNAWN LLUN, 18 Mai
2.30 - 4.00

Croeso cynnes

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

Daeth cynulleidfa dda iawn i festri Carmel i wrando ar sgwrs y Dr. Elwyn Hughes am Ddyffryn Ogwen a'r Rhyfel Mawr. Yn naturiol, roedd cynnwys y sgwrs yn drist iawn, ond gyda chymorth sleidiau, roedd natur y cyflwyniad yn hynod ddiddorol, a cafwyd ymateb cadarnhaol iawn gan bawb. Soniwyd am y cannoedd a aeth o'r Dyffryn i ymladd ac am y 132 na ddychwelasant gartref.

Trist oedd clywed am rôl arweinwyr crefyddol yn hudo'r bechgyn i ymuno â'r Fyddin, ac am y 'Geiniog Fawr' a dderbyniai'r gweddwon. Tristach fyth oedd sylweddoli mai'r teuluoedd eu hunain oedd yn gorfod talu am roi enwau'r meirw ar y cerrig beddi!

Diolch i bawb ddaeth â medalau, llythyrau a.y.y.b.i'r cyfarfod.

Eglwys Annibynnol Carmel Llanllechid

TŶ CAPEL I'W OSOD

£325 y mis gyda dyletswyddau arferol Tŷ Capel

Ceisiadau drwy lythyr at:
Megan Hughes Tomos

(Ysgrifennydd yr Ymddiriedolwyr)
Sychnant, Llanllechid, Bethesda, Gwynedd, LL57 3YF

Am ragor o fanylion ffoniwch 01248 601176
DYDDIAD CAU: 25 EBRILL 2015

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Capel Bethlehem

Oedfaon y Sul

Ebrill 19: Mr. Dafydd Iwan; **Ebrill 26:** Gweinidog;
Mai 3: Parchg. Emlyn Richards; **Mai 10:** Gweinidog;
Mai 17: CAU – Cymanfa Ysgolion yng Nghapel Carmel, Llanllechid am 10.30; **Mai 22:** Gweinidog.
Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Cyfarfod Sefydlu

Braint a phleser i aelodau Bethlehem oedd cael bod yn bresennol mewn oedfa ardderchog yng Nghapel Carmel, Llanllechid ar nos Sul, 22 Mawrth. Yr achlysur oedd Cyfarfod Sefydlu ein gweinidog newydd, y Parchedig John Pritchard. Braf hefyd oedd gweld ein cyn-weinidog, y Parchedig Geraint Hughes yn llywyddu’r gweithgareddau. Oedfa i’w chofio!

Ysbyty

Anfonwn ein cofion at Mrs. Margaret Hughes (Llys Helyg) yng Nghartref Bryn Llifon. Dymunwn wellhad buan iddi ar ôl iddi orfod treulio rhai dyddiau yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dymuniadau gorau hefyd i Mrs. Rose Thomas, 16 Dolhelyg, yn dilyn llaw-driniaeth yn yr ysbyty.

Cydymdeimlo

Roedd yn ddrwg iawn gennym glywed am farwolaeth mam ein gweinidog, y Parchedig John Pritchard, yn ddiweddar. Anfonwyd ein cydymdeimlad dwysaf at Mr. Pritchard a’r teulu oll yn eu profedigaeth.

Eglwys Maes y Groes

Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mrs. Muriel Owen, 5 Pentref Llandygai, ar ei phen-blwydd arbennig. Gobeithio y mwynhewch y dathlu Muriel!

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Profedigaeth

Daeth newyddion trist inni am farwolaeth un o gyn-drigolion y Gerlan, sef y diweddar Eifion Williams, oedd wedi symud i fyw i Fangor ers nifer o flynyddoedd. Un o Ynys Môn oedd Eifion, ond bu iddo briodi merch o’r Gerlan, Alwenna, a threuliodd ef, ac Alwenna, gyfran sylweddol o’u bywyd priodasol yn Stryd y Ffynnon, Gerlan, gan fagu eu merched yna, cyn symud i Fangor. Yn anffodus, fe gollodd Eifion ei wraig yn 2012. Rydym yn estyn ein cydymdeimlad i’w ddwy ferch, Dawn a Wendy, a’r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Prawf gyrru

Llongyfarchiadau mawr i Mari Davies, Tŷ Dŵr, ar lwyddo yn ei phrawf gyrru, a hynny ar yr ymgais gyntaf. Rhwng dysgu gyrru, ymarfer yr hwylio, a pharatoi ar gyfer ei Lefel A, mae Mari yn ferch ifanc hynod o brysur, ond mae’n llwyddo’n rhyfeddol gyda phopeth y mae’n troi ei llaw ato. Da iawn chdi, Mari, a phob lwc rŵan efo’r hwylio a’r arholiadau.

Pen-blwydd arbennig

Bu i Medwyn Owen, Rallt Uchaf, ddathlu ei benblwydd yn 40 oed ar ddiwrnod Sant Padrig. Llongyfarchiadau mawr, Medwyn. Gobeithio iti fwynhau’r dathlu.

Cydymdeimlo

Rydym yn cydymdeimlo’n fawr gydag Ian Roberts, Karen, a’r teulu, Ciltrefnus, yn eu profedigaeth o golli chwaer Ian, sef y ddiweddar Olive Roberts, oedd yn byw yn Stafford.

Llwyddiant Calan

Braf iawn oedd cael bod yng nghyngerdd gwych y grŵp gwerin Calan yn Neuadd Ogwen yn ystod mis Mawrth. Aelod blaenllaw’r grŵp hwn yw Patrick Rimes, o’r Gwernydd, Gerlan. Mae Patrick yn offerynnwr dawnus iawn, yn feistr ar sawl offeryn. Roedd y neuadd yn orlawn, gyda phawb wedi mwynhau’r wledd. Diolch yn fawr iawn, Patrick, a diolch yn fawr, aelodau eraill Calan. Gwych!

Priodas aur

Llongyfarchiadau i Robin ac Ann Hughes, Freithwen Isaf, ar ddathlu eu priodas aur ym mis Mawrth. Dymuniadau gorau oddi wrth bawb ohonom. Rydym, hefyd, yn cofio atoch eich dau, ac yn gobeithio eich bod yn gwella.

Y Clwb Cymdeithasol

Mae Clwb Cymdeithasol y Gerlan yn cyfarfod yn y Caban bob yn ail brynhawn Mercher am 1.30. Mae’r aelodaeth wedi gostwng yn ddiweddar, ac mae’r Clwb yn croesawu aelodau newydd i’w cyfarfodydd. Cofiwch, felly, os am brynhawn difyr, dewch i’r Clwb Cymdeithasol yn y Gerlan, cewch groeso cynnes.

Llandygái

Ethel Davies, Pennard, Llandygái
☎ 353886

Gwaeledd

Roeddem yn falch o glywed fod Dion Hughes wedi dechrau codi allan, a rhai o’r pentrefwyr wedi ei weld yn y car gydag Emyr. Roedd yn edrych yn dda ond yn cael dipyn o drafferth cerdded. Mae llawer yn holi amdanoch ac yn cofio atoch, Dion.

Mae ein cofion a’n dymuniadau da yn mynd at: Ernie a Nerys Coleman, Beryl a Jim Hughes, Dr Pam Jones, Moyra Muir, Olwen Latham, Cassie Tindall, Betty Williams a Dorothy Proudley-Williams sydd yn dal yn wael. Gobeithio y byddwch oll yn teimlo’n well wedi i’r tywydd gynhesu.

Mae ein gweddïau gydag Anne hefyd, merch Peter a Jill Bullen, sydd yn wael ar hyn o bryd. Mae’r cymdogion yma yn cofio atoch i gyd fel teulu ac yn dymuno’r gorau i Anne.

Croeso Adref

Croeso’n ôl i Denzil ac Iona Jones ar ôl dychwelyd o Tsieina wedi bod ymweld â Dewi (eu mab) a’r teulu oll

sydd yn byw a gweithio yno dros dro. Roedd Iona wrth ei bodd ar ei gwyliau a chredaf yr hoffai fyw yno petae’r Tsieiniaid yn gallu siarad Cymraeg! Mae’n siŵr fod yn gas gan Dewi a’r teulu weld taid a nain yn dod yn ôl i Gymru.

Eglwys Agored

Byddwn yn dechrau ar y cyntaf o Ebrill agor yr eglwys bob Dydd Mercher a Dydd Sadwrn hyd ddiwedd yr haf. Rydym yn ddiochgar iawn i Daphne am drefnu rhestr ddyletswyddau a diolch o galon i bawb sydd wedi gwirfoddoli o’r pentref a’r eglwys ar y dyddiau hyn.

Bingo

Roedd yn noson bingo go arbennig yn Neuadd Talgai ar 17 Mawrth, oherwydd tridiau wedyn roedd Mr Robin Jones yn cael ei ben-blwydd yn 91 mlwydd oed. Felly, amser egwyl roedd yna barti i ddathlu’r pen-blwydd. Diolch i o galon i Pauline, Raymond a phawb fu’n brysur yn gwneud y noson mor hwylïog a llwyddiannus – roedd Robin wedi mwynhau ei hunan yn fawr.

Eglwys Sant Tegai

Gwaeledd

Anfonwn ein cofion anwylaf at Hefina Chamberlain sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd yn cael llawdriniaeth i’w phen-glin ar ddydd Mercher, 25 Mawrth. Rydym yn falch iawn ei bod wedi dychwelyd adref ac yn cael gofal rhagorol gan y teulu. Llwyf wellhad i chi, Hefina.

Ein dymuniadau gorau at bawb sy’n wael ar hyn o bryd, yn arbennig at: Jane Couch, Ben Cramb, Gwynne Edwards, Enid Gardner, Harry Gross, Dorothy Hanks, Parchedig Aelwyn Roberts ac Audrey McMorley – brysiwch wella.

Cofio Rhyfel Byd Cyntaf

Ar fore Sul, 8 Mawrth yng ngwasanaeth y Cymun buom yn cofio am Gapten yn y Gwarchodlu Grenadier sef yr Anrhydeddus George Henry Douglas-Pennant, Castell Penrhyn a fu farw ar 11 Mawrth 1915. Bore Sul, 15 Mawrth yn ein gweddïau roeddem yn cofio am Is-ringyll aelod o’r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig sef Samuel Tunley, Gerddi Penrhyn a fu farw ar 15 Mawrth 1915. Mae enwau y ddau i’w gweld ar Le Touret Memorial yn Ffrainc. Diolch o galon i Rhian a Judith am ddarllen y gweddïau ac i John Bagnell yr ymchwilydd.

Pen-blwydd

Dymunwn ben-blwydd hapus i Edmond Douglas-Pennant fydd yn cael ei ben-blwydd ar ddechrau mis Mai. Gobeithio y cewch ddiwrnod wrth eich bodd, Edmond.

Symud Tŷ

Dymunwn bob hapusrwydd i Mrs Hazel Jones sydd wedi symud i fyw o Dan y Grai, Llandygái i’r Bryn. Rydym yn falch iawn na fu’n rhaid iddi symud ymhell gan fod ei hangen anom ni yma. Mae’n aelod ffyddlon a gweithgar yn Sant Tegai – mae wrth ei bodd byw yn agos i Nerys.

Dymuniadau Gorau

Bydd Dydd Iau Cablyd, Dydd Gwener y Groglith a Sul y Pasg wedi mynd heibio erbyn y bydd y rhifyn hwn o Llais Ogwan wedi ymddangos a’r plant a’r myfyrwyr wedi mynd yn ôl i’r ysgolion a’r colegau – llwyddiant eleni eto iddynt yn nhymor yr haf.

Rhiwlas

Iona Jones
17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎01248 355336

Clwb Rhiwen
Yn ein cyfarfod ar Fawrth 11eg cawsom gwis diddorol wedi’i drefnu gan Ann, ac o gael yr atebion roedd yn amlwg fod gwybodaeth am dyddiadau digwyddiadau pwysig yn wan! Jean a Dilys oedd yn gyfrifol am y te a’r raffl. Yng nghyfarfod Mawrth 25ain cawsom drafodaeth am y Pasg a sut y penodir dyddiad yr ŵyl hon. Hefyd cawsom wybod am darddiad “Ffŵl Ebrill” a hel atgofion am sawl tric a chwaraewyd arnom flynyddoedd yn ôl. Helen a Iona oedd yn gyfrifol am y te ac enillwyd y raffl gan Dee a Gareth. Buom hefyd yn trafod y rhaglen am weddill y tymor. Mae tipyn o grwydro i ddod!

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn ag Esyllt ac Alan, 31 Bro Rhiwen. Bu farw nain Esyllt, sef Mrs Mary Williams o Rhostryfan yn sydyn ond yn dawel yn Ysbyty Gwynedd. Anfonwn ein cofion hefyd at Nerys ac Alwyn a’r teulu. Pob dymuniad da i Esyllt yn ei swydd newydd mewn meddygfa ym Mangor.

Gwaeledd
Bu sawl un o’r pentref yn cwyno yn ddiweddar, dymunwn yn dda i’r canlynol, Mr Gruff Owen, Frondeg, Mr Eric Jones, Bwthyn Caeau Gleision, Mr Ken Thomas, 11, Caeau Gleision, Mrs Brenda Williams,19,Bro Rhiwen, Mr Peter Grace, Tan y Werglodd Lodge a Mr Richard Williams, Caeau Gleision a gafodd driniaeth yn Llundain yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Mrs Cathy Owen, Cae Glas ar ddod yn nain i efeilliaid am yr eildro. Ganed dwy o enethod bach i Alun a’i gymar Ceri. Eu henwau ydy Anni a Cêt; pob dymuniad da iddynt fel teulu.

Apêl
Pob Mis Mai fe gawn Wythnos Cymorth Cristnogol pryd y cesglir arian o dŷ i dŷ. Diolch i’r rhai a fu wrthi y llynedd , ond y mae gwir angen mwy o gasglyddion. Tybed a oes rhai’n fodlon helpu eleni? Buasai casglu o’r tai o’ch cwmpas neu ar yr un stryd yn dderbyniol iawn. Os am helpu’r achos teilwng hwn , yna cysylltwch â fi os gwelwch yn dda. Diolch.

Merched y Wawr, Cangen Rhiwlas

Annes oedd yn llywyddu cyfarfod Mis Mawrth ac fe groesawodd aelodau o ganghennau Bethesda, Deiniolen a Thregarth atom.

Roedd y Boncathod wedi dod i’n diddanu; côr gwerin digyfeiliant ydyw ac mewn bodolaeth ers pymtheng mlynedd. Roedd yn bleser eu clywed yn canu hen ffefrynnau ar newydd wedd. Roedd yn rhaid gwrando’n astud gan fod cwestiwn i’w ateb ar ddiwedd pob grŵp o ganeuon. Un cyflwyniad ddiddorol oedd eitem o gerdd dant, heb delyn, ond un rhan o’r côr yn canu’r alaw a’r gweddill yn canu’r geiriau a llwyddo i offfen gyda’i gilydd!

Diolchodd Gwen i’r Côr am roi noson arbennig o dda inni ac hefyd i’r canghennau eraill am ddod atom i’n cefnogi. Yn ogystal diolchwyd i aelodau Rhiwlas am baratoi’r danteithion ar gyfer y noson ac i bawb a gyfrannodd at y raffl.

Glasinfryn Caerhun

Marred Glynn Jones
2 Stryd Fawr, Glasinfryn, Bangor
LL57 4UP **01248 351067**
Marred567@btinternet.com

Sefydliad y Merched

Gwledd i ddathlu Gŵyl Ddewi, dyma fu ein hanes ni yng Nglasinfryn mis diwethaf. Cawsom wledd o adloniant i gychwyn ac yna gwledd i fwyta i ddilyn wedi ei baratoi gan yr aelodau. Noson ardderchog ac arbennig iawn.

Mair Griffiths oedd yn llywyddu a braf oedd cael cwmni Mrs Muriel Pritchard, mam Mair, i ddathlu hefo ni.

Bu dathlu unwaith eto yng nghartref Mrs Pritchard oherwydd ganwyd dau or-ŵyr arall yn ddiweddar. Efallai i chi ddarllenwyr y Daily Post weld yr hanes fod dwy chwaer wedi rhoi genedigaeth o fewn 3 munud i'w gilydd yn Ysbyty Glan Clwyd. Mae croeso mawr i’r ddau fach, Mirain a Celt, i Waen Wen. Rhaid cael "pwrs" go fawr, Mrs Pritchard, i’r 17 or-ŵyr sydd gennych ond mae’r breichiau’n ddigon hir i’r hygs sydd yn bwysicach! Da iawn chi a llongyfarchiadau.

Marian Bryfdir oedd y wraig wadd (er ei bod yn aelod gyda ni). Fe’i ganwyd a’i magu yn y Blaenau cyn mynd ymlaen i astudio cerdd yn y Royal Academy of Music. Wedi graddio, ymunodd â'r Glyndebourne Festival a’r Touring Opera cyn mynd i Brifysgol Houston, Texas yn yr Unol Daleithiau i astudio llais a dysgu myfyrwyr.

Daeth yn ôl i Loegr i ddysgu canu yn y Colchester Institute ac i ymuno â chantorion y B.B.C., a bu’n unawdydd yn y Royal Opera House yn Covent Garden. Wedi symud yn ôl i Gymru sefydlodd Opera Gogledd Cymru a bu’n dysgu canu a darlithio yn y Brifysgol ym Mangor. Aeth ymlaen wedyn i ddysgu yn Sbaen a bu’n canu led y byd yng nghwmni'r enwogion! Dyna i chi fywyd a gyrfa ddisglair anhygoel a diddorol.

Erbyn hyn mae Marian yn ôl yng Nghymru yn y Brifysgol ym Mangor yn dysgu a chynnal gweithdai i gantorion ac actorion, yn dysgu opera a chyflwyno darlithoedd i athrawon cerdd. Bu un o fyfyrwyr Marian yn cadw cwmni iddi a chawsom ein swyno gan lais hyfryd Megan Roberts sy’n fyfyriwr yng Ngholeg Menai.

Diolchwn i Megan am ei chyfraniad a’i pherfformiad gwych. Dwi’n siŵr y byddwn yn clywed llawer amdani yn y dyfodol fel bydd y llais hyfryd yn datblygu. Dymunwn yn dda i Megan yn ei gyrfa.

Diolchwyd i Marian a Megan am eu cyfraniad bendedig gan Glenys Morgan a mwynhawyd y wledd o gawl a danteithion i goroni’r noson.

Gwych o noson, a diolch i bawb.

Pentir

Anwen Thomas,
Min yr afon, 11 Rhydygroes, Pentir
☎ **01248 355686**

**Eglwys St. Cedol,
Pentir**

Clwb 100 - Mis Mawrth 2015
1af. Rhif 33. Nia Roberts, Rhiwlas
2ail. Rhif 35. Margaret Williams, Rhiwen
3ydd. Rhif 36. Ellis Davies, Llanllyfni

Garddwest
Bydd ein garddwest flynyddol yn cael ei chynnal eleni ar y 23 Mai am 1.30yh yn Y Ficerdy, Pentir. Bydd amrywiol stondinau a cystadleuaeth agored i'w barnu ar y diwrnod, sef creu gardd fechan dim mwy na 10 modfedd mewn maint. Croeso cynnes i chwi ymuno â ni.

Gwasanaethau'r Sul
Mae'r gwasanaethau am 9.45yb
18.4.15. Cymun bendigaidd
25.4.15. Boreol weddi
2.5.15. Cymun pawb
9.5.15. Boreol weddi
16.5.15. Cymun bendigaidd

Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni yn y gwasanaethau.

Tregarth

**Olwen Hills
(Anti Olwen),**
44 Bro Syr Ifor,
Tregarth
☎ **600192**

Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw,
Tregarth
☎ **601544**

Profedigaeth
Anfonwn ein cydymdeimlad fel pentref ac ardal i Mrs Ena Morris Jones, 15 Tal y Cae, Tregarth, a'i merch Bethan Catrin Roberts a'r teulu, Nant yr Eira, Tal y Cae, yn eu colled fawr o golli Dafydd Tudur, y Felinheli ond yn wreiddiol o Forfa Nefyn. Bu farw Dafydd , oedd yn 27 mlwydd oed, mewn damwain ar Fawrth 22. Roedd yn un o wryion Ena ac yn nai i Bethan a chefnder i Lois, Lea a Daniel. Cynhaliwyd ei angladd ym Morfa Nefyn , ddydd Llun, Mawrth 30. Derbyniwch ein cydymdeimlad llwyraf fel teulu.

Dyweddïo
Llongyfarchiadau i Fflur Ellis, Dol Wern, Tal y Cae a Liam Hogan o Bentraeth, Ynys Môn ar eu dyweddïad. Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd i'r ddau ohonoch.

Merched y Wawr Cangen Tregarth
Cawsom noson o waith llaw yng nghwmni Margaret Jones a'i merch Jên Margiad Temple Morris, Nos Lun, Mawrth 30 yn Festri Capel Shiloh. Noson o wneud tlws neu addurn ar wisg (brooch) oedd hi gan defnyddio defnyddiau a rubanau gan eu gosod yn drawiadol ar gefndir o ddefnydd cadarn. Cafwyd gwledd o waith crefftus dros ben, a diolchwyd i'r ddwy am eu harweiniad a'u dull

cartrefol o gyflwyno gwybodaeth gan Linda Pritchard. Mwynhawyd paned wedi'i baratoi gan Alwena a Rita.

Roedd nifer o'r aelodau yn methu bod yn bresennol. Cydymdeimlwyd gydag Ena yn ei phrofedigaeth fawr o golli Dafydd Tudur, ei hŵyr. Croesawyd Iola yn ôl wedi gwaeledd. Anfonwyd cofion at Beti Morris oedd wedi cael damwain tra yng Nghaerdydd ac wedi torri ei garddwn. Gwellhad buan hefyd i Angharad, Enid, a chofion at Glenys Clarke ac Elinor Holland. Llongyfarchwyd Jinni ar ddod yn Hen Nain i ddwy o ferched bach Ceri, ei hwyr.

Dymunwyd yn dda i Alison ar ei thaith i Awstralia.

Atgoffwyd yr aelodau fod y Mudiad yn casglu gemwaith, beltiau, teis ayb. fel rhan o weithgaredd Merched y Wawr eleni.

Cynhelir cyfarfod mis Mai y gangen ar Nos Lun, Mai 11 sef noson gyda'r teitl 'Homeopatheg' yng nghwmni Elin Alaw. Croeso cynnes i bawb am 7.30 yn Festri Shiloh.

Capel Shiloh

Gwasanaethau

Ysgol Sul 10.30
Oedfa 5.00

Ebrill 12

Parchedig Wynne Roberts, Porthaethwy

Ebrill 19 Parchedig Jennie Hurd

Ebrill 26

Parchedig W.R.Williams, Y Felinheli

Mai 3 Parchedig Philip Barnett

Mai 10 10.30 o'r gloch. Oedfa Deulu

Cymorth Cristnogol

Mai 17

Parchedig Dafydd Hughes, Caernarfon

Braf iawn oedd gweld aelodau Ysgol Sul Shiloh yn rhan o weithgaredd dathlu Dydd Gwyl Dewi ym Methesda, Dydd Sul, Mawrth 1af. Er nad oeddynt yn rhan o'r orymdaith oherwydd y glaw, hyfryd oedd clywed eu cyfraniad yn y cyngerdd a ddilynodd yn Neuadd Ogwen a gweld y faner newydd sbon liwgar a gynnlluniwyd gan yr aelodau a'u rhieni. Diolch i Anti Christine a'r rhieni am ei gwaith gyda'r plantos.

Dathlu Sul y Blodau

Bore Sul, Mawrth 29, cafwyd Oedfa Deulu yng nghwmni plant a ieuencid yr Ysgol Sul. Thema'r gwasanaeth oedd pwysigrwydd Sul y Blodau fel rhan o'r Wythnos Fawr a gwnaeth pawb ei gwaith yn gampus fel arfer.

Roedd pawb yn falch o weld ein gweinidog, Y Parchedig Philip Barnett , wedi gwella'n ddigon da ar ôl ei lawdriniaeth i ddod i'r gwasanaeth ac i roi sgwrs i'r gynulleidfa. Diolch o galon i'r rhai fu'n hyfforddi ac yn paratoi ar gyfer yr Oedfa. Cafodd pawb Wy Pasg ar derfyn y bore a mwynhawyd paned, Bynsan Grog a sgwrs i ddiweddu'r gwasanaeth. Oedfa fendithiol dros ben.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Gwynfor Deiniol Rowlinson, fu'n aelod prysur a chyson o Ysgol Sul Shiloh pan yn iau, ar ei lwyddiant yn cael mynediad i Goleg yr Iesu, Rhydychen ym Mis Medi. Rydym yn hynod o falch o dy lwyddiant Gwynfor.

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau

Ebrill	19	Boreol Weddi
	26	Cymun Bendigaid
Mai	3	Boreol Weddi
	10	Cymun Bendigaid
	17	Boreol Weddi

Pob gwasanaeth am 9:45 y.b.

Clwb Cant Mis Mawrth

1.	96	Laura Jones
2.	14	Ian Russell
3.	90	Keith Jones

Bu'r ciniawau Garawys yn llwyddiant.

Diolch a bawb a wnaeth gefnogi.

Cynhelir y te bach nesaf ar 28ain Ebrill am 2y.p.

Mae Garddwest y Tair Eglwys yn cael ei chynnal Dydd Sadwrn 4ydd Gorffennaf am 1 y.p. yn Ficerdy Pentir.

Cynhelir cystadleuaeth ffotograffiaeth:

Dosbarth 1 – Agored (oedolion a dan 16)

Dosbarth 2 – Natur, Diwydiant neu

Ddiwylliant yn Nyffryn Ogwen (oedolion a dan 16)

Tâl cystadleuaeth – 50c

Lluniau dim llai na 7” x 5”

Cynigion i’w gyrru i Rosemary Williams, 19 Ffordd Tregarth erbyn 28ain Mehefin.

Clwb 100 Canolfan Tregarth

Mis Mawrth

23 Gwenda Davies	£15
9 Sara Oliver	£10
43 Peter Jones	£5

Canolfan Tregarth

Yn ddiweddar mae Canolfan Tregarth wedi derbyn grantiau ariannol oddi wrth Mantell Gwynedd a Chyngor Gwynedd. Efo’r arian, mae’r pwyllgor wedi gwella’r adnoddau trwy osod cegin fodern, newydd i alluogi defnyddwyr sydd am gynnal partion pen-blwydd ac yn y blaen.

Hefyd gosodwyd drysau mewnol newydd fel bod llai o ynni i yn cael ei ddefnyddio i wresogi’r ganolfan. Mae hyn yn rhan o’r cynllun i wella adnoddau canolfannau cyhoeddus dros Wynedd.

Mynydd Llandygái

Theta Owen

Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái.

☎ 600744

Ysbyty

Anfonwn ein cofion at Mr. Gwilym Bullock, Mr. Arthur Jones a Mrs. Carol Rickard sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar, gan ddymuno adferiad buan iddynt.

Diolch

Cafwyd Ffair Basg yn Eglwys St. Ann a St. Mair. Diolchwn i bawb a ddaeth i’n cefnogi.

Gobeithiwn i chi gael Pasg hapus a bendithiol.

Newid Aelwyd

Mae Mrs. Edith Jones, wedi ymadael â Gefnan a symud i Fangor. Dymunwn bob hapusrwydd i chwi yn eich cartref newydd. Bydd colled fawr yma ar eich ôl.

Eglwys y Santes Ann a’r Santes Fair

Gwasanaethau

Ebrill 12:	9.45	Cymun Bendigaid
Ebrill 19:	9.45	Cymun Bendigaid
Ebrill 26:	9.45	Boreol Weddi
Mai 3:	9.45	Gwasanaeth Teuluol
Mai 10:	9.45	Cymun Bendigaid

Diolch i bawb a gefnogodd y "Ffair Pasg" mis diwethaf; roedd llawer o'n cyfeillion wedi mwynhau cinio ysgafn yn yr eglwys.

Llongyfarchiadau i Mrs. Edith Jones ar dathlu pen-blwydd yn nawdeg ar 1af Ebrill a dymunwn pob hapusrwydd iddi yn ei chartref newydd yn Cae Garnedd, Penrhosgarnedd.

Drwg oedd gennym glywed fod Mr. Arthur Jones wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Broadgreen yn ddiweddar. Brysiwch wella Arthur. Anfonwn ein cofion cywiraf hefyd i'n holl gyfeillion yn y pentref sy'n sâl ar hyn o bryd a dymunwn adferiad iechyd buan i chwi oll.



I logi Canolfan Tregarth cysylltwch ag Angharad Williams, 01248 601544

Braichmelyn

Rhiannon Efans,
Glanaber, Pant, Bethesda
☎ 600689

Mae Mr a Mrs G Stokes a'r teulu wedi symud i fyw i Glanogwen a theulu arall wedi symud i 17 Gernant . Gobeithio y byddant yn hapus yn eu cartrefi newydd.

Mae Mr Cook, Sŵn-y-Dŵr yn yr ysbyty ac yn gwella. Bu Mrs Beryl Orwig yn yr ysbyty yn dilyn codwm yn ei chartref. Anfonwn ein cofion at y ddau.

Marchnad Ogwen

Wrth ystyried Stondinau Marchnad Ogwen, mae'r amrywiaeth sydd ar gael bob mis yn drawiadol iawn. Mi awn am dro o gwmpas y Farchnad - llysiau a ffrwythau, plancedi a nwyddau wedi eu crosio, sebon o bob lliw a llun, caws gafr a hyd yn oed cig gafr yn ei dymor, anrhegion unigryw Cymraeg a Chymreig o fygiau i fandanas i gŵn, bagiau siopa a chlustogau chwaethus, cardiau cyfarch o waith llaw at bob achlysur, cacennau blasus at wahanol achlysuron, planhigion a llysiau yn eu tymor a chynnyrch fferm, caws buwch, cig moch (y ddwy stondin yma wedi ennill yn Sioe Llanelwedd), gemwaith a chardiau, mosaics, ffa coffi wedi eu rhostio, bara o bob math, pdwinau i'w rhoi yn y microdon am eiliadau, a siocled a sawsus cartref. Yn ogystal â hyn mae'r amrywiaeth ar y Stondin Un Tro yn newid yn fisol ac wrth gwrs ni allwn anghofio ein Stondin Elusen bob mis. Hyn i gyd ar stepan eich drws! Croeso mawr i bawb daro i mewn yn rhad ac am ddim ar yr ail Sadwrn o bob mis. Mae caffî'r Neuadd yn gwerthu paned a chawl cartref blasus.

Stondin Elusen mis Mai yw Cylch Meithrin Llanllechid a'r Stondin Un Tro yw Crefftau Serenseed.

Mae gwybodaeth gyfredol ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk ac mae posibl i chi gysylltu yn uniongyrchol gyda'r gwerthwyr ar y wefan hon.

Pryd mae'r Farchnad nesaf? Mai 9fed yn Neuadd Ogwen o 9.30 - 1.30. Croeso cynnes.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Er nad oedd yr adeg etholiadol yn dechrau tan mai Ebrill, bu aelodau'r gangen yn brysur canfasio, ffonio a dosbarthu taflenni yn ystod mis Mawrth, gyda'r ymgeisydd seneddol (Alun Pugh) yn rhoi ei holl amser i'r ymgyrch.

Ar ddiwedd mis Mawrth cynhaliwyd bore coffi'r gangen yng Nghanolfan Cefnfaes, gan wneud elw sylweddol i'r gangen. Cafwyd areithiau byr gan Alun Pugh a Betty Williams (y cyn aelod seneddol) ar ddiwedd y bore.

Cynhelir cyfarfod nesaf y gangen ar y 27ain o Fai yng Nghangen Cefnfaes am 7:30pm.

Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen

Amser prysur iawn sydd o'n blaenau yn ystod yr wythnosau hyn oherwydd, wrth gwrs, cynhelir Etholiad Gyffredinol Senedd San Steffan ddechrau mis Mai. Mae llawer iawn o'n haelodau allan yn cario neges Plaid Cymru i'r priffyrdd a'r caeau gyda Hywel Williams, ein Aelod Seneddol presennol, yn ymweld â nifer o bobl a sefydliadau.

Cynhaliwyd cyfarfod byr ar nos Fawrth Mawrth 24ain. Nid dyma ein noson arferol wrth gwrs, ond 'doedd ein haelodau ddim eisiau colli'r cyfle o fynd i weld cyflwyniad Theatr Bara Caws o'r ddrama Pump Cynnig i Gymro yn Neuadd Ogwen ar nos Fawrth olaf y mis. Yn y cyfarfod hwnnw o'r Gangen trefnwyd amserlen yr ymgyrchu dros yr wythnosau nesaf, ac adroddodd y Trysorydd bod swm sylweddol, yn cynnwys elw'r bore coffi, wedi ei gyfrannu at gronfa ymgyrch yr etholiad.

Trafodwyd eto y diflastod sy'n cael ei achosi wrth i fwsus newid ei hamseroedd neu beidio a theithio i rai mannau. Ond y pryder mwyaf a fynegwyd gan y Cynghorydd Sir, Ann Williams, oedd y bwriad i godi tâl am barcio ym meysydd parcio Bethesda. Mae wedi llythyru gyda'r Cyngor sir ac wedi cael llawer o lofnodion i gefnogi ei chais yn gwrthwynebu hyn.

Llongyfarchwyd un o'n haelodau, Mrs Margaret Bowen Rees, ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Sylwer y cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth Mai 19eg yng Nghanolfan Cefnfaes am 7 o'r gloch.

Nyth y Gân

Newid

Mor braf ydoedd gweled y blodau'n yr ardd
Eu lliwiau'n odidog a'r cyfan mor hardd;
Rhai'n dalsyth a chadarn, yn uchel eu maint,
A'r lleill ond yn fychan yn hawlio'r un frain.

Yn ysgwyd yr oeddynt mor llawen bob un
Gan ddeffro'r dychymyg yng nghalon y dyn;
Y trwmgwsg fu hanes y rhain oll i gyd
A llwm iawn bryd hynny fu gardd yn eu byd.

Edrychais o'm cwmpas ar deulu bach llon
A braf ydoedd rhannu golygfa fel hon;
Y gwenyn mor brysur a ddaeth yn eu tro
I gyffwrdd yn ysgafn yn holl flodau'r fro.

Darlun heddychlon a greodd y rhain
A'u sŵn yno'n crwydro fel hud trwy y llain,
A'm cludo a gefais fan hyn a'r fan draw,
Bu bron i mi godi a'u harwain â'm llaw.

Ond buan newidiodd y tlysi i gyd,
Y dydd aeth yn fyrach a byrach o hyd
A'r barrug ddechreuodd ymosod yn drwm
A throi yr ardd fywiog yn swrth ac yn llwm.

Hen Ŵr ar ei Faine (Patagonia)

Yn y dydd yr eisteddai yn y gwynt,
A gŵen a ddangosai;
Gwin hyfryd hefyd yfai
Ai lygaid llwyd damaid llai.

Dafydd Morris

I hysbysebu yn Llais Ogwan ac i drafod telerau a'ch holl anghenion cysylltwch â:

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Chwilio am deuluoedd i fynd benben â'i gilydd ar y gyfres newydd o Fferm Ffactor

Mae S4C a'r cwmni cynhyrchu Cwmni Da yn chwilio am deuluoedd i gymryd rhan yn y gyfres nesaf o Fferm Ffactor fydd yn cael ei darlledu yn yr hydref.

Hyd yn hyn, mae'r gystadleuaeth ar gyfer ffermwyr wedi bod yn her rhwng unigolion ond bydd y seithfed gyfres yn gosod teuluoedd o ffermwyr benben â'i gilydd gan roi cyfle iddyn nhw ennill y brif wobr o gerbyd model Yukon D-Max 4 x 4 wedi'i noddi gan Isuzu UK a'r teitl 'Teulu Ffermio Gorau Cymru'.

Mae Cwmni Da yn chwilio am deuluoedd o bedwar i gystadlu yn y gyfres. Mae'n rhaid i bob cystadleuydd fod yn hŷn nag 17 oed a'r teulu yn cynrychioli un fferm, ond nid oes rhaid i bob aelod fyw ar y fferm honno. Gall aelodau o'r 'Teulu' fod yn gyfuniad o fam/tad/gŵr/gwraig/mab/merch/partner/brawd/chwaer/teulu a'u teulu agos.

Bydd un teulu yn herio teulu arall bob wythnos, gan droi eu llaw at nifer o gampau a thasgau amaethyddol o dan lygaid barcud beirniaid o'r byd amaeth. Bydd teulu buddugol pob rownd yn mynd ymlaen at y rownd nesaf mewn arddull 'knockout' cyn i ddau deulu wynebu ei gilydd yn y rownd derfynol i benderfynu ar y teulu buddugol.

Os ydych yn teimlo bod gan eich teulu chi'r fferm ffactor sydd ei angen i ennill y gystadleuaeth, cysylltwch â'r cwmni trwy'r wefan, s4c.cymru/ffermffactor neu ffoniwch 01286 685600. Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw bore Llun, 5 Mai 2015 am 11.00am.

CHRIS GRIFFITHS

Trwsio ffenestri upvc, drysau,
cloeau, bachau, twll llythyrau ac
unedau gwydr wedi chwythu



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Ymgymmerwr adeiladu a
gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

**Llwyau Caru
LLEW TUDUR**

Artist Cymreig sy'n cerfio
llwyau caru unigryw i
ofynion y cwsmer

07775 520657

www.llwyaucaru.cymru
Bethesda

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda

☎ 602112 (gyda'r nos 602767)

Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieinaidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch
â'r hysbyseb hwn hefo chi

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦
Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio'r dosbarth

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com



01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.



GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎ 601031

Sefydlwyd

1969

**m.hughes
a'i fab**

CONTRACTWYR TOI

2 Hen Aelwyd, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwylans Gogledd Cymru

Blodau Racca

PENISARWAUN

*Planhigion gardd a basgedi crog o'r
ansawdd gorau*

Ffôn: 01286 870605

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Swyddfeydd eraill:

Llangefni Amlwch Benllech
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782

Caernarfon
(01248) 673616

Pwllheli
(01758) 703000

D. Hughes a S. Roberts

Seiri Maen

Bob math o Waliau Cerrig
Ffensio : Tirlunio

Ffôn : 07766 895352

**MODURDY
FFRYDLAS**



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWYR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

Cyngor Cymuned Llandygái



Trefnwyd noson i ddiolch i glerc y cyngor ar achlysur ei ymddeoliad, yn Nhafarn y Gors, Pentre Berw. Bu Gwilym Evans o Niwbwrch, Ynys Môn yn glerc i'r cyngor ers 1993 ac roedd yn hynod ofalus wrth ymdrin â chyllid, gan roi adroddiad ariannol bob mis yn gywir i'r geiniog. Cadwai gofnodion y cyngor yn fanwl ac roedd ei brofiad o weithio i gynghorau eraill yn gymorth mawr i ni. Cyflwynwyd llestr o lechen y Penrhyn iddo a blodau i Myra ei wraig am ei chefnogaeth a'i chymorth i Gwilym ac i'r cyngor.

**Yn addas rhown i'n swyddog – ein diolch,
I dawl ŵr pwylllog
Ar gynnal ni i'r geiniog
Yn ein Llan, a dyna'n llog.**

Cyngor Cymuned Bethesda

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor ddiwedd mis Mawrth.

Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau am y plac Caellwyngrydd a archebwyd gan y cyn-Glerc a hefyd adroddwyd bod y Clerc yn clercio i'r 3 cyngor cymuned ers Mis Chwefror. Cynigwyd bod y swyddog Partneriaeth Ogwen yn cael cyfarfod gyda pensaer i drafod maes parcio arfaethedig Gerlan.

Adroddwyd bod swyddog o'r Cyngor Sir a nifer o gynghorwyr wedi bod yn tacluso o amgylch y ganolfan feddygol ar gyfer yr orymdaith Gŵyl Dewi Sant. Penderfynodd y Cyngor ddigolledu Pwyllgor Neuadd Ogwen pe bai colled ar gyngerdd yr Ŵyl.

Gofynnwyd i'r Clerc drefnu bod rhywun yn casglu ysbwriel sydd yn hel o amgylch Llys Dafydd yn reolaidd. Trafodwyd rhoddion a penderfynwyd mabwysiadu awgrymiadau'r Pwyllgor Cyllid am roddion i gymdeithasu ac elusennau lleol.

Penderfynodd y Cyngor roi benthyc arian i Bartneriaeth Ogwen am waith angenrheidiol sydd angen ei wneud. Penderfynwyd hefyd rhoi caniatâd i swyddog Cartrefi Cymunedol Gwynedd ddefnyddio Gorffwysfan am gyfarfod ym Mis Ebrill a Gorffennaf.

Bydd gwrthwynebiad cryf o'r Cyngor ynglŷn â cynlluniau'r Cyngor Sir i godi tâl am ddefnyddio meysydd parcio Bethesda. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad yn erbyn y cais cynllunio diwygiedig ar y safle dros ffordd i Plas Ffrancan.

Penderfynwyd y byddai'r Cyngor yn cyfrannu o'i arian wrth gefn fel arian cyfatebol i unrhyw grant gan y loteri i drwsio Canolfan Rachub. Trafodwyd cynigion Llywodraeth Cymru am ddiwygio Llywodraeth Lleol gan ddod i gonsensws farn ar nifer o'r cynigion.

Sefydlu Gweinidog yn y Dyffryn

Roedd nos Sul Mawrth 22 yn noson hanesyddol yng Nghapel Carmel. Daeth cynulleidfâ niferus ynghyd i Gapel Carmel, Llanllechid, i gyfarfod sefydlu y Parch D. John Pritchard Llanberis, yn weinidog ar Eglwysi Annibynnol Bethlehem Talybont a Charmel Llanllechid, sydd bellach yn rhan o Ofalaeth Fro'r Llechen Las. Hyfryd oedd croesawu nifer o aelodau o Lanberis a Deiniolen.

Cafwyd Cyfarfod Sefydlu i'w gofio gyda'r Parchg. Geraint S. R. Hughes yn llywyddu a'r Parchedig Euros Wyn Jones yn traddodi pregeth rymus a phwrpasol, ac fe offrymwyd y weddi gan un o blant yr Eglwys, Y Parchedig Dafydd Coetmor Williams. Yr organyddes oedd Mrs Rhian Roberts.



Roedd hi'n braf cael gweld pobl ifanc y Clwb Dwylo Pysur yn y gynulleidfâ ac fe gyflwynwyd eitem gerddorol ganddynt gyda chanmoliaeth uchel.

Cymerwyd rhan hefyd gan Marian Jones, Is-lywydd Pwyllgor yr Ofalaeth, Barbara Jones a Neville Hughes, Bethlehem, a Helen Wyn Williams, Carmel (a gyflwynodd ffon Tanymarian i'r gweinidog newydd).



Yn llun gwelir y Parchedig John Pritchard (ar y chwith) gyda llywydd y cyfarfod, y Parchedig Geraint S.R. Hughes.



Yn dilyn y cyfarfod roedd paned a lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan chwirydd Bethlehem a Charmel. Diolch o galon i bawb gyfrannodd fwyd, neu arian, ac hefyd i bawb fu'n helpu wrth y byrddau. Dydd Sul hapus a bendithiol iawn.

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY



JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:

01248 601754

07770 568743 (symudol)



Contractwyr Trydanol Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



OWEN'S TREGARTH Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260
07761619475



www.owenswales.co.uk

Siop Ogwen

Cownter Gwasanaethau

Dydd Llun 10.00-4.00: Cymorth i Ferched

Dydd Llun 9:30-11:30: Banc Bwyd (Derbyn Talebau)

Dydd Mawrth 10.00-2.00: Wardeiniaid Ynni

Dydd Mercher 12.00-2.30: Banc Bwyd (Dosbarthu Bwyd)

Siop Grefftau ar agor Llun - Sadwrn

01248 602131 partneriaeth@ogwen.org

TRYDANWYR

D&Selectrical

CONTRACTWYR TRYDANOL

07551 06 32 81 / 07506 43 25 10
BETHESDA

Am unrhyw waith trydanol cysylltwch â Dylan neu
Steffan. Prisiau di-guro.

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Malinda Hayward (Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

Tudur Owen, Roberts, Glynne a'u cwmni



DEWCH I WELD
EICH
CYFREITHIWR
LLEOL

SGWÂR BUDDUG
STRYD FAWR
BETHESDA
GWYNEDD
LL57 3AG

BETHESDA
01248 600171
bethesda@torglaw.co.uk

Cyfreithwyr

Y CYNGOR CYNTAF
AM DDIM

EWYLLYSIAU A
PHROFIANT
SYMUD Tŷ

L. Sturrs a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953
Ffacs: 602571
lsturrs@googlemail.com

Côr Meibion y Penrhyn

Fflach Dyrfa “Black Dyke” arall yn denu cannoedd

Ar ôl llwyddiant ysgubol y perfformiad fflach dyrfa yn Venue Cymru, Llandudno ym Mis Chwefror pan oedd Katherine Jenkins yn perfformio yno, aeth hogia'r côr yn ôl i'r un lle i roi perfformiad arall pan ddaeth Max Boyce i'r Venue i gynnal un o'i berfformiadau cofiadwy.

Cafwyd derbyniad twymgalon eto gan y gynulleidfa wahanol hon cyn iddynt fynd i mewn i'r awditoriwm i wrando ar un o brif gomedïwyr ein gwlad. Mae tyrfa enfawr o bobl wedi mynegi diddordeb ym mherfformiad y côr ar Facebook a Twitter ac mae gwerthiant tocynnau ar gyfer y perfformiad gyda band pres gorau'r byd yn mynd yn dda. Rhag i chi gael eich siomi cysylltwch gyda Walter Williams ar 01248 601167 neu ar waltermenai@yahoo.co.uk er mwyn cadw tocynnau neu ag unrhyw aelod arall o'r côr. Pris y tocynnau yw £20 neu £17.

Cyngerdd Côr Seiriol
Cynhaliodd aelodau Côr y Penrhyn gyngerdd llwyddiannus iawn gyda Chôr Merched Seiriol yng Nghapel Jerusalem Nos Sul, 1 Mawrth sef Dydd Gŵyl Dewi. Roedd pawb a fynychodd y cyngerdd yn dweud bod perfformiadau'r ddau gôr yn ardderchog a bod y sawl a fethodd y noson arbennig hon wedi cael colled aruthrol. Meddai Neville Hughes, cyn brif leisydd Hogia Llandygái, “Roedd hwn yn gyngerdd safonol gan gorau sy'n perfformio ar lefel uchel iawn ac mi gefais i a phawb arall oedd yno bleser rhyfeddol yn gwrandao arnynt yn mynd drwy eu rhaglenni.” Ychwanegodd, “Llongyfarchiadau i aelodau'r ddau gôr am eu cyfraniadau.”

Côr MS yn gwneud ei farc
Nos Sadwrn, 21 Mawrth daeth côr cymharol newydd atom i Neuadd Ogwen, Bethesda i gynnal cyngerdd. Roedd elw'r noson yn mynd tuag at y bobl hynny sy'n dioddef o gyflwr a adnabyddir fel MS (Multiple Sclerosis). Mae'r côr newydd hwn hefyd yn mynd dan yr enw “AMaSing” sy'n chwarae ar y llythrennau “M” ac “S”. Roedd y côr hwn yn cynhyrchu sain felys iawn gyda lleisiau soprano yn asio gyda'r bas yn hynod o effeithiol. Nid yw pawb sy'n canu gyda'r côr yn dioddef o'r clefyd ond yn hytrach yn helpu gyda gweithgareddau'r gymdeithas MS yn ardal Bangor a'r cyffiniau.

Hefyd, cawsom berfformiadau caboledig iawn gan ferch o Landegfan bellach, ond yn wreiddiol o Swydd Efrog, sy'n chwarae'r

soddgrwth i lefel broffesiynol ar ôl bod yn aelod o Gerddorfa Symffoni Leeds.

Ymhellach, cafwyd unawdau Cymreig ac operatig gan y soprano adnabyddus Kate Griffiths o Fryn Saith Marchog ger Corwen a chyflwynwyd wyth o ganeuon gan Gôr y Penrhyn gan gynnwys “Y Ddau Wladgarwr” sy'n ddam newydd i raglen y côr. Hefyd, fe gyflwynwyd Nkosi Sikelela / Tshotolosa o Dde Affrica sydd wedi tyfu i fod yn arwydd-donau gan y côr. Mae'r ddau ddarn hyn bob amser yn derbyn croeso byddarol gan gynulleidfaoedd ar hyd a lled y wlad.

9 Bach
Ar 21 Ebrill bydd y côr yn teithio i lawr i Gaerdydd i gymryd rhan yng Nghystadleuath Grŵp Gwerin Gorau Ynsoedd Prydain fel lleisiau cefndir i'r grŵp 9 Bach o Fethesda. Radio 2 sy'n trefnu'r cyfan a bydd y rhaglen yn cael ei darlledu ar yr orsaf honno. Gwyliwch amdani!

Cymeriadau'r Côr

Cyfes yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Carl Walker o Glanogwen, Bethesda, sydd yn saer coed ac yn adeiladydd wrth ei alwedigaeth.



1 – **Be' ydy dy enw llawn?** Carl Walker
2 – **Oed?** – 44
3 – **Lle wyt ti'n byw?** – Glanogwen, Bethesda
4 – **Un o lle wyt ti'n wreiddiol?** – Mi ges i fy ngeni ym Manceinion (nid arna i mae'r bai!) ond mi ddes i Fethesda i fyw yn flwydd oed.
5 – **Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?** –

- Hapus, Mwynhau bywyd, Hoffi cwmni.
- 6 – **Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr** – Ers 23 mlynedd
 - 7 – **Pa lais wyt ti?** – Tenor 2.
 - 8 – **Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** – Mwynhau canu efo eraill ac yn hoffi ambell i drip.
 - 9 – **Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** – Gwahoddiad.
 - 10 – **Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** – Fy hoff grŵp ydy AC/DC.
 - 11 – **Beth ydy dy farn di am ganu pop?** – Mae'n iawn weithiau – mae'n dibynnu pwy sy'n perfformio.
 - 12 – **Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r Côr?** – Mae'n debyg mai'r daith i Chicago yn 1993 sy'n aros glir iaf yn y cof.
 - 13 – **Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** – Golff a'r teulu.
 - 14 – **Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** – Dim ond dal ati - mae pethau'n mynd yn grêt yn y côr ar y funud.

Coleg yn Cynnig Cymorth Ariannol i Ddarpar Fyfyrrwyr

Bydd modd i ddarpar fyfyrwyr ymgeisio am Ysgoloriaeth Cymhelliant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol o £1,500 cyn 8 Mai 2015.

Bwriad Ysgoloriaethau Cymhelliant y Coleg yw cynnig cymorth ariannol i ddisgyblion sy'n dymuno astudio o leiaf 33% o'u cwrs gradd trwy'r Gymraeg.

Mae o leiaf 150 o'r ysgoloriaethau hyn ar gael a bydd rhaid i ymgeiswyr gyflwyno cais cyn 8 Mai.

Mae mwy o gyrsiau nac erioed yn gymwys ar gyfer yr Ysgoloriaeth Cymhelliant eleni a caiff disgyblion eu hannog i ddefnyddio Chwilotydd Cyrsiau'r Coleg Cymraeg i sicrhau bod eu cwrs yn gymwys.

Bydd modd i fyfyrwyr sy'n dymuno astudio cyrsiau ym meysydd gwyddoniaeth, mathemateg, daearyddiaeth, y gyfraith, ieithoedd modern, amaeth, seicoleg chwaraeon, busnes, meddygaeth ac athroniaeth wneud cais am yr arian.

Mae rhagor o wybodaeth a phhecyn ymgeisio llawn ar www.colegcymraeg.ac.uk/myfyrwyr



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk



Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.
Cyngori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

**STEPHEN
JONES**



**TREFNYDD
ANGLADDAU**

Y Douglas Arms

* Lluniaeth i Bartion * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *

Oriau Agor

Llun - Gwener: 6.00 - 11.00

Sadwrn: 3.30 - 12.00

Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 - 11.00

01248 600219

www.douglas-arms-bethesda

Cewch groeso cynnes gan
Gwyn a Christine

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyio ar gyfer
partion o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partion
o bob math - dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

JOHN ROBERTS

Paentiwr

Papurwr

Teilsiw



Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995

Hefyd ymgymryd
â gwaith cerrig beddi:
adnewyddu neu o'r newydd

Gweithdy Pen-y-bryn
Cefn-y-bryn, Bethesda

Ffôn: gweithdy 600455
gartref 602455
personol 07770 265976
Bangor 360001

Gwasanaeth personol ddydd a nos

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045

Caernarfon 01286 676070

Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol

Stoc helaeth ac amrywiol

Croeso i gyfrifon masnachol

Staff cyfeillgar a phroffesiynol

Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768

LLanrwst 01492 640794

Siop yn 01492 640794

Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni

Croesair Ebrill 2015

AR DRAWS

- 1 Mae Alun, yr Aelod Cynulliad, ynghanol y tŷ yma, ond nid fel Aelod Seneddol (8)
- 5 Helfa o bysgod (4)
- 8 Newid i fynd at y cob am smôc (6)
- 9 Eisteddfod yr Urdd 2014 (4)
- 10 “Y clod, y mawl, y parch a’r --- “ (emyn enwog) (3)
- 12 Arswyd (3)
- 13 Cael mwy gan y chwe dryslyd (7)
- 15 Brenin nid anenwog yn hanes Cymru (3)
- 17 Actores a chyflwynydd cyntaf ‘Cyw’ S4C i blant. Betsan Brysur (5)
- 18 Mi wna i ddod i newid natur wyllt yr anifail (3)
- 19 Ei wneud yn llai poenus (7)
- 20 Carreg werthfawr (3)
- 22 “Rwy’n caru pob --- o hen Gymru wen” (Crwys) (3)
- 24 Arian gwerthu ceffylau rasio (4)
- 25 I galedu coleri erstalwm (6)
- 27 Ffrind pluog Cynan? (4)
- 28 Natur meri-go-rownd (8)

- 4 Hylif ysgrifbin (3)
- 6 I wahanu brawddegau (7)
- 7 Colli arni (8)
- 11 Gallech feddwl fod awdur 22 Ar Draws yn teimlo hyn (10)
- 13 Dod yn un o 1 I Lawr (5)
- 14 Mi fethodd 15 Ar Draws wneud hyn i Gymru (8)
- 16 Anfon i Gaergybi ar ddydd Calan erstalwm am un ohonynt (7)
- 21 Ei hyd a’i led (5)
- 23 Mae Dewi ar ôl oherwydd iddo ddrysu’n llwyr (4)
- 26 Dweud fod rhywun yn troi (3)

ATEBION CROESAIR MAWRTH 2015

AR DRAWS 7 Llugoer, 8 Arwain, 9 Llanarmon-yn-Iâl, 10 Blodwen, 12 Carno, 14 Ymroi, 16 Golchiad, 19 Clychau Eglwysi, 21 Corawl, 22 Waliwr

I LAWYR 1 Bugail, 2 Coma, 3 Cromlech, 4 Caint, 5 Gwyngalch, 6 Mirain, 11 Diolchgar, 13 Sodddgrwth, 15 Maldod, 17 Ansawdd, 18 Cuddle, 20 Wylo.

I LAWYR

- 1 Mae’r cwbl yn dod at ei gilydd yn drefnus i chwarae pêl-droed (4)
- 2 Yn addas a thaclus i’w wisgo (5)
- 3 Mae’r hogyn bach yn cael parti i ddathlu -- ----- (2,8)

Dyma’r ychydig wallau a gafwyd y tro hwn, ‘golchfan’ gan ddau yn lle ‘golchiad’ a dau arall yn cynnig ‘sorgrwth’ yn hytrach na ‘sodddgrwth’. Ond cafwyd atebion hollol gywir gan : Gwyneth Jones, Glasinfryn; Gaynor Elis-Williams, Carneddi; Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Sara a Gareth Oliver, Tregarth; Derek a Mai Jones, Rhiwlas; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Doris Shaw, Eirwen Williams, Bangor; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Rita Bullock, Bethesda; Ellen Whitehouse, Birmingham; Myra E. Evans, Niwbwrch; E. E. Roberts, Llanberis;

Ond yr enw ddaeth i’r brig o’r het y mis yma yw Dilys Parry, Bryn Tirion, Rhiwlas, Bangor. Da iawn chi.

1		2		3		4			5	6		7
		8							9			
10									11			
		12				13						
14												
15		16		17						18		
19								20		21		
										22		23
24					25	26						
27					28							

Atebion erbyn 29 Ebrill i ‘Croesair Ebrill’, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD

Enw:

Cyfeiriad:

CHWILAIR EBRILL 2015

Llefydd yn Sir Gaernarfon

A	A	W	F	H	R	I	R	H	A	E	A	D	R	A	B	E	R	E	J
L	C	M	B	V	B	H	J	X	U	I	S	V	S	H	E	I	M	G	V
H	M	D	B	E	D	D	G	E	L	E	R	T	W	H	D	U	Z	M	X
V	A	D	D	C	N	N	A	P	A	U	Q	U	E	S	O	F	R	P	Y
Q	Z	G	G	R	A	H	Y	C	C	U	M	I	W	N	O	Y	R	I	A
S	Z	U	T	A	F	E	D	G	X	W	N	U	P	W	R	H	C	Q	H
W	E	H	O	Y	R	E	A	E	E	I	M	G	E	O	M	H	E	P	T
T	C	B	B	C	U	N	U	T	O	R	J	Y	P	L	T	M	I	V	V
D	C	B	B	F	R	F	D	L	H	O	G	G	G	J	V	I	I	R	R
X	I	M	H	T	T	G	E	O	O	R	S	N	K	L	O	P	W	R	C
M	K	A	C	B	O	N	O	R	L	D	O	C	Y	X	O	V	R	Y	H
S	T	M	D	L	R	E	F	Y	J	B	D	D	Z	W	H	B	C	W	O
S	C	R	I	S	A	I	X	N	I	L	E	Y	X	J	G	J	M	B	W
T	E	W	X	M	E	D	X	K	F	U	P	N	W	C	Q	R	Y	O	I
L	H	F	E	R	Z	H	Q	R	O	C	T	D	M	E	G	W	E	S	L
C	Z	E	B	E	A	J	T	K	J	C	L	N	L	A	N	R	V	B	O
G	J	P	W	P	G	S	O	E	W	J	J	Q	U	L	E	T	F	S	A
V	H	C	A	S	E	D	R	E	B	A	T	X	E	U	G	N	N	H	S
L	Z	E	A	F	X	E	F	A	I	L	N	E	W	Y	D	D	I	O	W
T	Z	H	K	V	A	G	B	N	K	A	D	S	I	K	O	G	D	H	B

Yn y chwilair mis yma mae enw deuddeg lle yn Sir Gaernarfon. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chi ddod o hyd i’r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân). Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y Coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn Ebrill 29ain . Bydd gwobr o £10 i’r enw cyntaf allan o’r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna’r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Cawsoch hwyl ar ddarganfod enwau llefydd o Sir Fôn, felly dyma ddeuddeg enw o’r hen Sir Gaernarfon i’ch diddori. Nid oedd pawb wedi darganfod yr enwau tramor, felly gobeithio cewch well hwyl gyda’r enwau ar y tir mawr.

Dyma atebion Mawrth:- Aberffraw: Bodewryd: Brynsiencyn: Caergeiliog: Dwyran: Llanbedr Goch: Llanddaniel Fab: Llanfair yn Neubwll: Marian Glas: Porthaethwy: Rhos-meirch: Ynys y Moel Rhoniaid.

Dyma enwau’r rhai a gafodd yr atebion cywir:- Doris Shaw, Bangor; Merfyn a Laura Jones, Halfway Bridge, Bangor; Elizabeth Buckley, Tregarth; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch, Pwllheli; Gwenda Roberts, Rhosmeirch, Ynys Môn; Elfed Bullock, Maes y Garnedd, Bethesda; Myfanwy Jones, Gaerwen, Ynys Môn; Alwyn Rowlands, Tregarth; G. Williams, Llansadwrn; Ogwena Griffith, Gerlan; Eirwen Williams, Pont-y-Pandy, Bangor; Rosemary Williams, Tregarth; Emrys Griffiths, Rhosgadfan, Caernarfon.

Enillydd Mawrth oedd: Dilys A. Pritchard-Jones, Ynys, Abererch, Pwllheli, LL53 6YP.

MÂN DDIWYDIANNAU YN NYFFRYN OGWEN
Gan Goronwy Wyn Owen

Y prif ddiwydiant yn Nyffryn Ogwen hyd y dydd hwn fu'r diwydiant llechi, sef Chwarel y Penrhyn neu Chwarel Cae Braich-y-Cafn a rhoi iddi ei henw gwreiddiol (Chwarel Cae ar lafar gan y to hŷn hyd heddiw).

Bu yma amrywiol ddiwydiannau o ddiwedd y ddeunawfed ganrif ymlaen. Mewn llythyr gan Lewis Morris (aelod o deulu enwog Morrisiaid Môn gynt) yn 1759 at un o'i frodyr sonia am gloddfa yn Nant-y-Benglog gerllaw Llyn Ogwen. Oddeutu'r un flwyddyn yr oedd teulu'r Penrhyn, ynghyd ag Archddiacon Meirionnydd, un John Ellis, a John Hughes, Stiward Stad y Penrhyn, gŵr â'i wreiddiau ym Môn, yn gweithio mwyn copr yn Nyffryn Ogwen. Bu cloddio yn Capel Curig, Dolawen a Dinas, Tregarth. Bu cloddio yn y Dinas o 1760 i 1770. Dywed William Williams, Llandygái, a fu'n stiward Stad y Penrhyn, fod cloddio arbrofol wedi digwydd yn ystod rhyw 6 mis yn 1783, sef yn Tan-y-Foel, Tan-y-Garth, y Dinas, Braich-Tŷ-Du, Tynycerau a Ciltwillan. Yn ôl Huw Derfel Hughes, ceisiodd Arglwydd y Penrhyn weithio copr drachefn ond y Chwarel âi a'i fryd o hynny ymlaen.

Bu cloddio am gopr ar Foel Wnion, uwchlaw Eglwys y Santes Llechid yn Llanllechid, ac ar fynydd Tryfan. Yn 1815 tystiodd un John Roberts o Fangor iddo ddarganfod copr ym mhlwyf Llanllechid. Tua throi'r 19fed ganrif yr oedd perchennog Stad Coetmor yn chwilio am gopr ar ei stad. Yn 1818 prynodd cyfreithwyr Stad Coetmor fferm Tyn-y-Ffridd am eu bod yn credu bod mwyn copr ar y tir. Mae'r enw Tŷ Mwyn, nepell o Tyn-y-Ffridd, yn awgrymu bod rhywrai wedi bod wrthi'n cloddio yn y cyffiniau.

Yn 1822 rhoddwyd prydles am 21 mlynedd i dri gŵr o Fôn i gloddio rhannau o Dolawen, Ceunant a Phenisa'r-Nant. Nodir yn y brydles hon bod nifer o Saeson yn cloddio am arsenig ar lannau Afon Ogwen tua 1827, a hynny ar dir fferm Dolawen. Etifeddodd W.J. Parry, Coetmor Hall, y gwaith hwn.

Yn Ebrill 1836 gwerthwyd y copr a'i anfon i'w doddi yn Abertawe. Dyma faint o fwyn copr a werthwyd rhwng 1836 ac 1839:
1836: 10 tunnell
1837: 29 tunnell
1838: 53 tunnell
1839: 14 tunnell

Yn 1845 bu un George Twigge yn chwilio am fwyn copr yn Tainewyddion. Allforid manganês o Borthladd Penrhyn yn 1809 a 1811. Tynnwyd y mwyn o'r ddaear yn Cwm Moch ar ochr ddeuheuol Cwm-pen-llafar.

Roedd mân chwareli yn ymyl Marchlyn, ac ar Pant y Dorem ar Garnedd Llywelyn. Allforiwyd y mwyn hwn i Ddulyn yn Iwerddon.

Bu cloddio ar raddfa fechan yn Coed-y-Parc a goffeir gan yr enw Allt 'Rocar. Bu gweithio ocr yno er 1793 adeg y rhyfel â Ffrainc. Un William Hughes a gychwynnodd gloddio'r mwyn coch hwn.

Yn 1801 rhoddwyd prydles i deulu'r Penrhyn i gloddio ar dir Blaen y Nant ger Nant-y-Benglog. Bu cloddio yno hyd 1822. Cloddid am faen crisial ('chert') tan 1802 ym Mhenbraichmelyn, a gwelir olion y cloddio heddiw ar y llwybr sy'n arwain o Benrhiw i fyny i gyfeiriad Carnedd Dafydd.

Mae'r olion ar y llaw dde ychydig uwchlaw Pont Ogwen. Bu cloddio hefyd yn Pen yr Orsedd a Cwm Pen Llafar. Yr Arglwydd Penrhyn oedd piau'r cloddio hwn am fwyn y maen crisial.

Fel rhan o'r gyfres Pontio ar y Lôn, mae Theatr Peut-être yn cyflwyno:

Shh... Bang!

Perfformiad dawnstheatr i blant a'u hoedolion, sy'n archwilio tawelwch a swm mewn modd chwareus yw hwn.

Mae "Tawel" yn byw mewn byd distaw o gymylau a meddalwch. Y drws nesaf mae "Swnllyd" yn casglu mwy a mwy o synau a synau gwyllt. Mewn droriau a chesys mae boings, sblashis, clepiau a swsial. Sut ar wyneb y ddaear all "Tawel" ac "Swnllyd" ddod o hyd i ffordd i wrando ar ei gilydd? Mae Theatr Peut-être yn creu gwaith rhyngweithiol i gynulleidfaoedd ifanc gan ddefnyddio elfennau gweledol cryf, symudiad corfforol a cherddoriaeth.

Neuadd Ogwen, Bethesda,
Dydd Sadwrn, Ebrill 25. 11am
£5 / £3 gostyngiadau, Yn addas i rai 3 oed a hŷn



S4C

**Côr Cymru 2015
Y Rownd Derfynol**

7.00

19 Ebrill

Pwy fydd côr buddugol y gystadleuaeth gorawd eleni?

s4c.cymru



GAIR O'R DOSBARTH

Ysgol Dyffryn Ogwen

Eisteddfod Sir yr Urdd

Cafwyd Eisteddfod Sir dros 15 lwyddiannus yn Ysgol Dyffryn Ogwen yn ddiweddar. Bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu, gyda llawer o berfformiadau arbennig. Bu'r ensemble lleisiol, yn cynnwys Ceri, Manon, Rhiannon a Math, yn llwyddiannus, yn ogystal â Hannah ar y llefaru i ddysgwyr a'r Côr Cerdd Dant. Byddant i gyd yn cynrychioli Eryri yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili ar ddiwedd mis Mai. Dymuniadau gorau iddyn nhw. Cafwyd perfformiad hynod o arbennig hefyd gan y Côr Merched yn un o'r gystadlaethau olaf yn y noson. Yn anffodus nid oedd y beirniad o'r un farn â llawer o'r gynulleidfa a'r ail wobwr a ddwyfarnwyd iddyn nhw ond roedd y perfformiad fodd bynnag yn un arbennig. Longyfarchiadau i chi gyd.

Ffug Gynhadledd - CEWC

Ar yr 17eg o Fawrth, cefais i ac aelodau o'r chweched dosbarth gyfle i gymryd rhan mewn ffug Gynhadledd y Cenhedloedd Unedig - CEWC yn Siambr y Cyngor yng Nghaerllanarfon fel rhan o'n gwaith BAC. Roedd y gynhadledd yn rhoi efelychiad cyffrous o weithdrefnau'r Cenhedloedd Unedig. Roedd rhaid i ni fynychu sesiwn paratoi cyn y gynhadledd i gael gwybod beth oedd pwnc trafod y diwrnod, ac i gael gwybod pa wlad yr oeddem am fod yn ei gynrychioli. Pwnc trafod y diwrnod oedd Hawliau Merched, a roeddem yn gweithio mewn grwpiau o dri, fi, Ianto a Joshua yn cynrychioli Gwlad yr Iâ, ac Elin, Sioned a Leone yn cynrychioli Nigeria. Trwy gydol y diwrnod roedd y cyfle i ddweud barn ein gwlad ar y deddfau oedd yn cael eu trafod, ac roeddem yn cael cyfle i drafod mewn grwpiau gyda gwledydd eraill. Fe wnaethom i gyd sylweddoli pa mor bwysig yw cyd-drafod mewn materion rhyngwladol a pha mor bwysig yw rôl y Cenhedloedd Unedig yn ein byd ni heddiw. Alys Haf

'Crouch, Touch, Pause, Engage'

Bu criw o ddisgyblion blynyddoedd 10 ac 11 yn cael gweithdy yn yr ysgol yn seiliedig ar y ddrama 'Crouch, Touch, Pause, Engage' gan gwmni National Theatre Wales, ac yn gweld perfformiad yn Neuadd Ogwen. Mae'r ddrama yn gynhyrchiad pwerus iawn ac yn seiliedig ar fywyd a hanes cyn-gapten tîm rygbi Cymru, Gareth Thomas. Roedd y ddrama i fod i gael ei pherfformio yn Pontio ym Mangor, a bu Neuadd Ogwen yn ddigon ffodus i gael wythnos o berfformiadau o safon uchel a chynulleidfaoedd llawn.

Cwrs Ysgrifennu Creadigol Saesneg

Cafodd criw o flwyddyn 7 ac 8 gyfle i fynychu gweithdy 'Scribblers' yn y Brifysgol dydd Llun. Cafwyd diwrnod gwych yn cyfarfod awduron cyhoeddedig. Cafwyd cyfle hefyd i wrando ar ddarlenniadau a chymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol. Braf iawn oedd gweld gymaint o ddisgyblion yr ysgol yn awyddus i rannu eu gwaith ag eraill. Pleser mawr oedd clywed canmolïaeth gan y trefnwyr am frwdfrydedd ac ymddygiad y plant. Cafodd y gweithdy 'Scribblers' ei drefnu gan y Brifysgol a Gwyl y Gelli.

Cwrs Gwyddoniaeth 'Darganfod'



Dros gyfnod o chwe prynhawn dyddiau Sadwrn, bu Esme Crowe, Cadi Roberts a ninnau'n dwy ar gwrs gwyddoniaeth ym Mhrifysgol Bangor i enethod blwyddyn 9 y sir. Er mwyn cymryd rhan, bu'n rhaid i'r bedair ohonom yrru llythyr cais i'r Adran Wyddoniaeth yn y Brifysgol – ac yn ffodus derbyniwyd ni oll. Ar y diwrnod cyntaf cawsom ymweld a gweithio o fewn adeiladau adrannau Gwyddoniaeth y Brifysgol, ynghyd

â thua deg ar hugain o ferched eraill, gan ddechrau yn y labordy electroneg yng nghanol Bangor. Yn ystod yr wythnosau canlynol buom mewn adeiladau eraill yn casglu gwybodaeth am wahanol agweddau o'r pwnc, fel astudiaethau'r môr, cemeg a gwaith fforensig. Rydym yn ddiolchgar iawn am y cynnig i gymryd rhan yn y cwrs, ac wedi mwynhau pob eiliad ohono. Agorodd y cwrs ein llygaid i ba mor bwysig mae merched yn y diwydiannau gwyddonol. Cawsom hefyd gyfle i drafod â chyflogwyr lleol am gyrsiau a gyrfaedd yn lleol i enethod sy'n ymwneud â gwyddoniaeth.

Ellen Gould a Hannah Morgan

Prosiect Peirianeg 6ed Dosbarth



Mae tri disgybl o flwyddyn 12 Ysgol Dyffryn Ogwen, Cai Dickinson, Cameron Hill a Josh Williams wedi bod yn gweithio ar brosiect Peirianeg ar gyfer myfyrwyr 6ed dosbarth. Rhan bwysig o'r prosiect oedd gweithio gyda Mr Emlyn Evans o gwmni Rehau yn Amlwch i addasu a gwneud gwelliant i un o gynnyrch prototeip newydd sydd gan Rehau yn ymwneud â phecynnau ailgylchu wedi eu cynhyrchu o ddefnydd blastig. Cafodd y disgyblion gyfle i fynd i Brifysgol Bangor, Coleg Menai a Chanolfan Arloesi Menai a chael profiad o weld sut mae ffatri Rehau yn gallu gwneud cynnyrch plastig o safon uchel. Ar ddiwedd y gwaith bu'n rhaid i'r disgyblion ysgrifennu adroddiad ac arddangos 'Y goler blastig' a gwneud cyflwyniad ar y gwaith yn Venue Cymru, Llandudno yn y 'Ffair Big Bang'.

Taith Rygbi i Llanelli



Ar ôl gadael Bethesda am 5:00 roedd tîm bechgyn 7 bob ochr Dyffryn Ogwen mewn hwyliau da ac yn edrych ymlaen at gystadleuaeth genedlaethol Yr Urdd. Cymerodd dipyn o amser i'r hogia ddeffro ac yn eu gêm cyntaf yn erbyn Ysgol Maes y Gwendraeth colli oedd eu hanes o 50-5. O'r gêm cyntaf roedd yn amlwg bod y safon am fod yn uchel iawn trwy'r dydd. Y gwrthwynebwyr nesaf oedd Ysgol Dwr y Felin. Roedd y gêm eithaf cyfartal am yr hanner cyntaf ond roedd y ail hanner yn wych gyda'r gêm yn gorffen 27-5 i Ysgol Dyffryn Ogwen. Roedd y ddwy gêm nesaf yn debyg iawn yn erbyn Dyffryn Aman ac Ysgol Plasmawr lle roedd profiad amlwg o rygbi 7 bob ochr a chwaraewyr cyflym a chryf. Roedd ymdrech y bechgyn yn wych ond yn colli'r ddwy gêm yn y diwedd yn anffodus.

Rygbi Merched

Yn chwarae rygbi 7 bob ochr am y tro cyntaf, trafaeliodd tîm y genethod yr holl ffordd i Lanelli ar gyfer cystadleuaeth Yr Urdd. Dechreuodd y genod hefo buddugoliaeth o 50-0 yn eu gêm cyntaf yn erbyn Ysgol Cefn Saeson gan arddangos sgiliau pasio cryf i sgorio 10 cais o fewn 14 munud. Rhoddodd hyn yn hwb mawr i'r genethod, ac enillwyd y gêm nesaf 25-5 yn erbyn tîm cryf Ysgol Cwm Rhymni. Roedd angen ennill



un o'r ddwy gêm olaf er mwyn sicrhau lle yn rownd yr 8 olaf gyda'r gêm nesaf yn erbyn Ysgol Glantaf. Cychwynnodd y genethod yn araf yn yr hanner cyntaf yn erbyn Ysgol Glantaf, ond roedd gwelliant erbyn yr ail hanner ond dim digon yn anffodus gyda'r gêm yn gorffen 35-10 i'r gwrthwynebwyr. Roedd hyn yn golygu bod angen ennill y gêm olaf o'r grŵp yn erbyn Ysgol Aberdar felly roedd y genethod o dan dipyn o bwysau i berfformio. Dyma efallai oedd eu perfformiad gorau gyda phasio ac amddiffyn cryf iawn. Llwyddodd y genethod i ennill y gêm 40-0 gyda phawb o'r tîm yn disgleirio. Ysgol Dyffryn Conwy oedd yn wynebu'r genethod yn rownd yr 8 olaf. Cychwynnodd y genethod yn dda, ond erbyn diwedd yr ail hanner ar ôl diwrnod hir a dipyn o anafiadau colli wnaeth y tîm o 25-5. O gofio mai dyma oedd y tro cyntaf i'r tîm chwarae mewn cystadleuaeth 7 bob ochr roedd pawb wedi perfformio'n wych ac wedi mwynhau yn arw.

Karate

Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion canlynol o'r ysgol am ennill medalau mewn cystadleuaeth Karate Brydeinig ym Manceinion yn ddiweddar. Roedd ennill y fedal aur yn golygu mai'r disgyblion yw'r gorau drwy Brydain am eu hoedran. Mathau gwahanol o karate yw Kata a Kumite!
Medalau Aur- Kata:
Bethan Hughes- (merched dros 16),
Ffion Parry- (parau cymysg o dan 16)
Medalau Arian- Kata:
Danny Jones (unigolion)
Ffion Parry (unigolion)
Medalau Arian- Kumite:
Danny Jones Jac Jones (aelodau o dîm)
Ffion Parry (unigolion)
Bethan Hughes (merched dros 18)

Ysgol Rhiwlas

Ymweliadau

Bu'r plant ar aml i ymweliad dros y tymor a bu llawer o bobl i mewn yn gweithio gyda hwy ar wahanol brosiectau.

Mae David wedi dechrau rhoi gwersi gymnasteg i'r ysgol gyfan ac mae pawb yn cael hwyl dysgu symudiadau newydd.

Daeth gweinyddesau'r cynllun gwên i siarad gyda'r plant am pa mor bwysig yw i lanhau dannedd.

Cafwyd sioe am Harri Tudur mewn cymeriad i gryfhau y gwaith roedd y plant yn ei wneud yn y dosbarth.

Aeth plant hŷn i Gapel y Ffynnon i gael hanes y Pasg. Wedi hyn fe gafwyd cystadleuaeth iddynt adrodd stori'r Pasg. Ddiwedd y tymor daeth Dafydd Jones fewn i wobrwyo Cassie, yr enillydd.

Bu'r plant hŷn ar ymweliad â'r Archifdy yng Nghaernarfon i ddysgu am olrhain achau a hanes yr ardal. Cafwyd bore diddorol iawn.
Cafodd y plant iau brynhawn difyr yn croesawu plant a babanod y pentref i'r ysgol i ymuno â nhw mewn Helfa Wyau Pasg a buont yn ffodus iawn i Sali Mali alw heibio i'w helpu. Roedd pawb wedi cael pnawn gwych.

Ysgol Ddistaw

Cafodd yr athrawon fore Llun braf iawn ddiwedd y tymor gan fod y plant wedi penderfynu ymgymryd â distawrwydd nodeddig! Roedd dipyn mwy o dwrw erbyn y pnawn. Cewch wybod yn y rhifyn nesaf faint godwyd.

Ffilm

Ar hyn o bryd mae plant blwyddyn 5 a 6 yn creu ffilm gyda mewnbwn



Daeth ymwelydd arbennig i'r Ysgol.
Cafwyd helfa wyau Pasg Sali Mali – a Sali ei hun
wedi ymgartrefu yn ein gwarchodfa natur
mewn tŷ pren am y bore!

Huw Mareddydd. Maent yn gobeithio y bydd y ffilm yn cael ei dangos i'r cyhoedd wedi iddi gael ei gorffen. Cafodd Ysgol Rhiwlas ei dewis ynghyd â dwy ysgol arall o Wynedd a Môn i gael y cyfle bythgofiadwy yma. Sêr y dyfodol yn cael eu meithrin eto.

Ffrindiau'r Ysgol

Ddechrau'r mis cafwyd Ffair Wanwyn wedi ei threfnu gan ffrindiau'r Ysgol. Er na chafwyd llwyth drwy'r drysau, gwnaed elw teilwng at yr ysgol.

Ysgol Pen-y-bryn

Cymru'n Cwîl

Ar Fawrth 6ed cynhaliwyd p'nawn hynod lwyddiannus i ddathlu Cymru a'i hiaith a'i hanes. Bu'r plant wrthi'n coginio cynnyrch Cymreig er mwyn eu gwerthu ac yn ystod y p'nawn cafwyd perfformiadau a gemau lu. Yn ogystal â hyn, bu'r plant yn astudio digwyddiadau hanesyddol pwysig, er enghraifft, llofruddiaeth Llywelyn, y Welsh Not, sefydlu mudiadau fel Yr Urdd a Chymdeithas yr Iaith. Bu'r plant blwyddyn 5 a 6 yn ysgrifennu cyfweliad rhwng William Morgan, Gwynfor Evans a Mr Urdd wrth iddynt drafod digwyddiadau pwysig a dyfodol yr iaith. Diolch i bawb a ddaeth i'r prynhawn!

Brodyr Gregory

Ar fore Mawrth 24ain, cafwyd cyflwyniad llawn hwyl a gwybodaeth gan y Brodyr Gregory. Roedd y plant a staff wedi mwynhau'n arw ac roedd dawnsio James Adl, Grace Wynne, Mr Jones a Mrs Jones werth ei weld!!

Ras am Fywyd

Cymerodd blant blwyddyn 5 a 6 ran yn Ras am Fywyd a drefnwyd gan Ysgol Dyffryn Ogwen. Roedd yn gyfle gwych i gadw'n heini tra'n casglu arian at achos da iawn. Da iawn i bawb cymerodd ran a diolch i Ysgol Dyffryn Ogwen am drefnu.

Bingo Cyfeillion

Ar nos Fercher, Mawrth 25ain, cynhaliwyd Bingo arbennig o lwyddiannus gan Gyfeillion yr Ysgol. Braf iawn oedd gweld llond neuadd o bobl! Aeth ambell un adref gyda llond trol o wyau Pasg!! Casglwyd swm anhygoel o £400.07! Diolch o galon i'r Cyfeillion am eu parodrwydd i helpu a diolch yn benodol i Miss Caryl Griffith am drefnu digwyddiad llwyddiannus arall.

Eisteddfod

Llongyfarchiadau mawr iawn i holl gystadleuwyr Eisteddfod Gylch a Sir yr Urdd! Perfformiodd y plant i gyd yn wych ac rydym yn falch iawn o bob un ohonoch!

Ysgol Abercaseg

Offer Techniquest

Cafodd holl blant yr ysgol gyfle gwych i arbrofi ac ymchwilio i wahanol rymoedd pan gawsom logi offer gwyddonol Techniquest am wythnos. Mwynhaodd pawb y cyfle i wthio, tynnu, troi a throelli wrth ddefnyddio'r offer arbenigol gwych. Mawr obeithiwn gael y cyfle i fenthyg mwy o offer cyffrous tebyg yn y dyfodol i ysgogi a datblygu sgiliau ymchwilio ac arsylwi'r plant.



Owain Foulkes yn arbrofi gyda'r offer Techniquest

Plannu Coed

Yr ydym eisoes wedi plannu coed ar dir yr ysgol dros y blynyddoedd i wella ansawdd ac edrychiad yr amgylchedd a felly roeddem yn falch iawn o wahodd Grŵp Effeithiolrwydd Ysgol Pen-y-bryn atom ar gyfer plannu dwy goeden ychwanegol, un bob un ar gyfer y ddwy ysgol. Diolch i Mr Davies am ddod i roi help llaw i'r plant gyda'r plannu.

Trwynau Coch

Mae bob eiliad yn ein hysgol yn brysur, brysur, a heb i ni sylwi roedd diwrnod Trwynau Coch ar y gorwel a ninnau heb drefnu dim byd! Ond wrth lwc, ar y diwrnod cynt, cyflwynodd Keira ym Mlwyddyn 2 y syniad i'r Sgwad Syniadau o gael pawb i wisgo rhywbeth coch a dod â 50c i'r ysgol. Cytunodd y Sgwad Syniadau gyda'i hawgrym gwych ac yn sydyn iawn aethant ati i anfon llythyr allan i bawb. Felly, er gwaetha'r byr-rybudd, rydym yn ddiolchgar iawn i bawb am ymateb mor wych ar Ddiwrnod Trwynau Coch er mwyn helpu pobl anghenus o gwmpas y byd yn ogystal ag yma yng Nghymru.

Sbri Sbwriel

Manteisiodd plant Blwyddyn 2 ar y cyfle arbennig i fynychu gweithdy diddorol fel rhan o gyflwyniad Sbri Sbwriel yn Neuadd Ogwen. Rhyfeddodd y plant wrth ddysgu sut mae modd creu papur allan o hen lyfrau. Roedd hyn yn perthnasu'n dda iawn gyda gwaith thema'r dosbarth oherwydd fod y plant wedi bod yn cynnal arolwg o'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu bob dydd yn nosbarthiadau'r ysgol, gan geisio meddwl am ddulliau priodol o ail-ddefnyddio a lleihau'r hyn sy'n cael ei daflu i ffwrdd.

Diwrnod Piws

Bu'r plant yn dathlu Diwrnod Piws, sef ymgyrch i gael pawb i wisgo piws er mwyn codi ymwybyddiaeth at Epilepsi ac i blant a phobol dros y byd, i beidio teimlo'n unig ac ar goll.

Sefydlwyd diwrnod Piws gan ferch fach 8 oed o Canada o'r enw Cassidy Megan, gan ei bod yn teimlo mai hi oedd yr unig un yn y byd yn dioddef. Mae'n hyfryd felly fod yr ymgyrch wedi cyrraedd Bethesda!

Mi fuodd plant dosbarth Ogwen yn siarad ar raglen HENO ar S4C yn sôn sut mae nhw'n delio gyda 'seizures' Liwsi, sy'n digwydd 8 - 15 gwaith yn ddyddiol yn ystod oriau ysgol. Roedd yn eitem hyfryd gyda'r rhieni i gyd wedi eu cyffwrdd yn gweld y plant i gyd mor annwyl.

Mae Abercaseg eisoes wedi ennill gwobr Edwards (Epilepsy Action Edward Award) sy'n cydnabod ysgolion sydd yn mynd i'r entrychion i helpu plant gyda Epilepsi, ac maent wedi derbyn cryn dipyn o sylw am ddathlu Diwrnod Piws.

Dywedodd Liwsi mai hwn oedd y "diwrnod gora dwi erioed wedi gael, Mam, gawn ni neud o eto fory?" sy'n dangos fod y weithred o bawb yn dod ar eu gilydd, yn ffrindiau, athrawon, ysgol a'r teulu i ddangos undod a chariad at blentyn sy'n dioddef o'r cyflwr, yn gwneud

gwahaniaeth i fywyd a hyder y sawl sy'n dioddef o unrhyw anghenion neu gyflwr fel Epilepsi.

Dywedodd Lisa, mam Liwsi, "Mae Staff a plant Abercaseg wedi chwarae rhan allweddol, nid yn unig gyda'r diagnosis cynnar, ond yn bennaf, drwy sefydlu byd saff a chariadus i Liwsi o fewn yr ysgol. Mae hyn yn hanfodol i blentyn sy'n cael cymaint o 'seizures' mewn diwrnod. Mae pawb yn dal't yna. Ond does na neb yn gneud dim ffys ohoni, nac unrhyw lol, dim ond disgwyl yn ddistaw tan ddaw Liwsi at ei hun, yna cario mlaen yn syth wedyn efo'r gweithgaredd. Mae o'n ffordd o fyw iddyn nhw yn y dosbarth, prin does na neb yn sylwi deud gwir. Ond na na llgada bach craff yn y dosbarth sydd yn cyfri eiliadau yn ddistaw bach cyn mynd i ddeud wrth Mrs Griffiths fod 'Blanc' Liwsi wedi para 11 eiliad! Dwi mor ddiolchgar iddyn nhw i gyd yn Abercaseg- mae hi'n ysgol sbeshal iawn."

Diolch yn fawr iawn i Delyth Jeffreys o Cegin Brysur a wnaeth lwyth o gacenau bach piws hyfryd i dosbarth Liwsi a'r athrawon! Mae hyn yn dangos nid yn unig ysgol dda ond CYMUNED yn tynnu at eu gilydd!



Liwsi Mo yn rhannu cacennau gyda'i ffrindiau ar Ddiwrnod Gwisgo Piws i Epilepsi



Liwsi wedi mopio gweld pawb mewn piws a gwaith papur arbennig gan Brandon

I hysbysebu eich gweithgareddau yn Llais Ogwan
AM DDIM
ac i drafod telerau a'ch holl anghenion cysylltwch â:

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Anfonwch ddeunydd Mis Mai at Lowri Roberts, 8 Pen y Ffriddoedd, Tregarth, LL57 4NY (01248 600490) l.roberts11@btinternet.com neu Walter W. Williams, 14 Erw Las, Bethesda, LL57 3NN (01248 601167) waltermenai@yahoo.co.uk

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 29 Ebrill, os gwelwch yn dda.

SIOPAU DYFFRYN OGWEN
(TUA 1956 – 2000) – Rhan 2

Gan DAVID ELWYN PRITCHARD
(Oes yna fylchau yn y rhestr? – rhowch wybod)

AR ALLT PEN-Y-BRYN

Siop Coparét
Siop Gwalltia Merched

RHES OGWEN / OGWEN
TERRACE

Siop Fara Nymbyr Wan
Siop Drydan
Siop Nwy
Siop Dob
Chinese
Janice – 4 Tymor
Siop Dillad Plant – Letty Morris
Fferyllfa – Eifion Jones
Meddygfa – Dr Iorwerth Mostyn
Williams a Dr Douglas Bowen Jones
Swyddfa Dôl
Siop Tomi Jones
Siop Ddillad Beehive ... Siop Dringwyr
Arfon Jones
Siop Orme's
Spar

RHES DOUGLAS /
DOUGLAS TERRACE

Rhif 1: Siop Dda-da / Bwyd Eifion

STRYD FAWR

Capel Bethesda
Banc Midland
Siop Ffrwythau a Llysiau Miss Evans
Lorne House – Hughie Lloyd
Siop Groser – Miss Hughes
a'i chwaer (mam Dewi)
Porcsiop
Bells
Siop Ddafadd Mrs Roberts
Siop Tomi Jones
Ogwen Grill – Gina
Siop Bysgod a Blodau – James Williams

Bull Inn
Siop Beiciau – Paul Spaghet ...
Winstone
London House – Siop Bapurau
aballu
Siop Ffrwythau a Blodau –
Tilbury's
Co-op
Crown Stores
King's Head
Pennant Caffi
Regent House
Star – Thomas
Siop Sgod a Sglod – Eddison Jones
Glanhawyr Dillad
Sam Pritchard
Hogan's
Caffi Arfon a Bet
Victoria
Llangollen
Siop Sgidia/Crydd – Rutledge
Siop Barbar – Tomi Jones
Pari Chemist
Siop Ddodrefn – Alfred Jones
Siop Sgidia/Crydd – D. J. Barnett
Siop Ddodrefn – Alfred Jones
Siop Barbar – Idris Owen
Siop Clocia / Gemau: Morgan
Banc Nat-West
Waterloo
King's Arms
Siop Sgod a Sglod – Austin
Deintyddfa – Harry Rowlands

PANT-GLAS
Siop Dei

Swyddfa'r Post a Siop Groser
Co-op

DARLITH GOFFA RHIANNON ROWLANDS

Nos Lun, 9 Mawrth, y Dr. J. Elwyn Hughes fu'n traddodi'r ddarlith flynyddol hon eleni ar wahoddiad Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen.

Ei destun oedd "Dyffryn Ogwen a'r Rhyfel Mawr, 1914 -1918", ac yn ôl ei arfer cafwyd darlith ddiddorol, yn llawn ffeithiau a gwybodaeth, ganddo!



Yn y llun gwelir ef gyda rhai aelodau o deulu Rhiannon ar ddiwedd y ddarlith.

CYNGERDD MAWREDDOG
Gan Andre Lomozik

Rwyf wedi bod yn brysur ers y Nadolig yn rhoi trefn ar fy nghasgliad o bethau a lluniau yn ymwneud â Bethesda a'r cylch. Mae'r rhan fwyaf o'r lluniau yn dyddio o'r wythdegau hyd at y presennol, ac yn rhedeg i rai miloedd bellach, ond mae'r taflenni a thocynnau sydd yn y casgliad yn mynd yn ôl i'r tridegau. Yn eu mysg mae rhaglen a thocyn o Gyngerdd Mawreddog a gynhaliwyd yng nghapel Carmel (A), Llanllechid, Nos Fercher Rhagfyr 15fed, 1937 gan Gôr Telyn Eryri, Beddgelert.

Ar waelod tudalen flaen y rhaglen mae'r canlynol wedi ei ysgrifennu, "Sylfaenydd ac Arweinydd y Côr - TELYNORES ERYRI". Pwy oedd Telynors Eryri? Nid oeddwn i wedi clywed yr enw yma erioed o'r blaen, ac felly dyma ddechrau chwilio am fwy o fanylion a phenderfynu galw yn Llyfrgell y Brifysgol ar fy ffordd adref o'r gwaith, a dod o hyd i lyfr gan Eysyllt Maelor, yn rhoi bywgraffiad o Edith Evans.




Merch Catherine a Gruffudd Evans oedd Edith, a adnabyddid fel Edith Cwm Cloch i drigolion Beddgelert, yr ieuengaf o chwech o blant. Pan yn ferch ifanc rhoddodd ei bryd ar ddysgu a chwarae'r delyn, a bu yn ymarfer gyda Thelynors Maldwyn, sef Nansi Richards, ar gyfer Eisteddfod Rhyddfrydol Porthmadog, Chwefror 5ed 1930, lle cipiodd Edith yr ail wobr. Sefydlwyd Côr Telyn Eryri gan Edith yr un mis. Erbyn 1937 roedd y Côr wedi cynnal rhai cannoedd o gyngherddau tros Ogledd Cymru a buont ar Ynys Enlli yn ystod y flwyddyn yma, yn diddanu'r trigolion ar yr ynys honno. Dyna ychydig o gefndir Edith Evans, ac i ddod a ni yn ôl i'r cyngerdd yng Ngharmel.

Dyma drefn y noson:-

RHAN UN. 1. Datganiad, "Y Cymro" gan y Côr. 2. Cân - Telynors Eryri. 3. Adroddiad, Llinos Llyfni. 4. Triawd "Cytgan y Wyddor" (Heb Gyfeiliant). 5. Deuawd ar un Delyn, Telynors Maldwyn a Thelynors Eryri. 6. Canu Penillion, Megan Hiraethog. 7. Canu Disgrifiadol, "Hen Ferch 30 ml. yn ôl". 8. Adroddiad, Eifiona. 9. Datganiad, "Un Dyn Bach ar ôl", y Côr. 10. Deuawd, "Anfon y Nico i Lan Dŵr", Llinos Llyfni a Thelynors Eryri.

RHAN DAU. 1. Anerchiad gan y Llywydd. 2. Datganiad "Saf i fynd dros dy Wlad" Y Côr. 3. Deuawd y Telynau, Telynors Maldwyn a Thelynors Eryri. 4. Adroddiad, Llinos Llyfni. 5. Cân Ddisgrifiadol, "Y Crwydryn", Telynors Eryri. 6. Adroddiad, Eifiona. 7. Cân Ddisgrifiadol, "Postman yn y Wlad", Telynors Eryri. 8. Cainc ar y Delyn, Telynors Eryri. 9. Canu Penillion, Llinos Glaslyn. 10. Datganiad, "Molawd Cymru", Y Côr. Hen Wlad fy Nhadau.

Llywydd y noson oedd Dr. A. R. Pritchard, Bethesda, ac roedd yr elw at yr achos yng Ngharmel. Ar waelod y tocyn mae'r sylw fod y tocynnau yn cael eu rhifo yn Ysgoldy Carmel, Prynawn Sadwrn, Rhagfyr 11eg rhwng dau a phedwar yr hwyr.



Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

Eglwys Annibynnol
Dosbarth Bangor a Bethesda

**CYMANFA
YSGOLION SUL**

yng Nghapel Carmel,
Llanllechid

Dydd Sul, 17 Mai 2015
am 10.30 y bore

Arweinydd Cerddorol
Mrs Valerie Ellis, Pendref

Organydd:
Mrs Rhian Roberts, Carmel.

Rhannau Arweiniol:
Ysgol Sul Carmel

Llywydd:
Elin Mair Jones, Carmel

**Sesiynau Siarad i
Ddysgwyr**

11-12, 2il Ddydd Sadwrn bob mis ym
Marchnad Ogwen, Neuadd Ogwen
11-12, 4ydd Dydd Sadwrn bob mis
yng Nghaffi Fitzpatrick's

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli
yn y sesiynau siarad, cysylltwch â
Meleri ar 01248 602131

**DYDDIADUR BOREAU COFFI
2015**

18 Ebrill
Cefnfaes, Cymdeithas Capel Jerusalem

09 Mai
Neuadd Ogwen - Cymorth Cristnogol

06 Mehefin
Cefnfaes – Côr y Penrhyn

27 Mehefin
Neuadd Ogwen - Eisteddfod D. Ogwen

25 Gorffennaf
Cefnfaes – Cronfa Goffa Tracy Smith

12 Medi
Cefnfaes - Eglwys St. Mair a St. Anne,
Mynydd Llandygai

26 Medi
Neuadd Ogwen - Plaid Cymru

31 Hydref
Neuadd Ogwen - Eisteddfod D. Ogwen

28 Tachwedd
Neuadd Ogwen – Ffair Nadolig y Blaid
Lafur.

Pwysig
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal
Bethesda, bydd y rhestr
uchod yn gymorth i chi ddewis
dyddiad gwag.
Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad
chi ar y rhestr hon.
Bydd yn cael ei diweddarau ac yn
ymddangos pob mis.
Anfonwch y manylion at Neville
Hughes (600853).

Marchnad Ogwen

Yr ail ddydd Sadwrn yn fisol

**Mai 9fed Neuadd Ogwen,
9.30am - 1.30pm**

**Mehefin 13eg
Cae Sioe Dyffryn Ogwen**

Bwydydd, Creffttau, Caffi

www.marchnadogwen.co.uk
Twitter #marchnadogwen
Facebook

Canolfan Cefnfaes

Bore Coffi

Cymorth Cristnogol

Sadwrn 9 Mai
10.00 - 12.00

Mynediad £1.00

Neuadd Ogwen

Bore Coffi

Cymdeithas Capel
Jerusalem

18 Ebrill
10.00 - 12.00
Croeso i Bawb

Canolfan Cefnfaes
BETHESDA

GYRFA CHWIST

28 Ebrill
12 a 26 Mai

am 7.00 o'r gloch

Dewch i fwynhau
nosweithiau difyr

**EGLWYS UNEDIG
BETHESDA**

**LLENWI'R
CW PAN**

Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore dydd Iau
rhwng 10.00 o'r gloch a
hanner dydd

Apêl Eleanor Jones

Clwb Criced a Bowlio Bethesda

Wynne Roberts

Canuon Elvis

Dyf Roberts

Tipyn o Swing



Nos Sadwrn

**18 Ebrill
7.30pm**

yn cynnwys
Soch Rhost

Tocynnau
Eleanor Jones: 01248 602130
Linda: 01248 601526
Ann: 01248 601583
Joe: 01248 601902



I ddathlu'r **Stwnsh** newydd
sbon, rydym yn cynnig y cyfle
i chi **ENNILL** pecyn anferth
o wobrau bob wythnos am 4
wythnos! Dyna'i gyd sydd rhaid
i chi wneud ydy...

GWYLIA
rhaglen yr wythnos
MYND ARLEIN
i wefan s4c.cymru/stwnsh
ATEB
cwestiwn syml am y
rhaglen nes di wyllo

Wythnos 1:
Ludus ar 20 Ebrill, 5.00
Wythnos 2:
Fi yw'r Bos ar 28 Ebrill, 5.00
Wythnos 3:
Dreigiau Berc ar 2 Mai, 8.55
Wythnos 4: Tag ar 12 Mai, 5.30

**Bydd yr enillydd yn cael ei ddatgelu ar
Tag bob dydd Gwener am 5.00!**

Mae holl delerau'r gystadleuaeth i'w gweld ar s4ccymru/stwnsh. Cynhelir y gystadleuaeth rhwng
20 Ebrill tan 14 Mai 2015. Mae'r gystadleuaeth yn agored i blant 7-16 oed yn unig. Rhaid cael
caniatâd rhieni neu warcheidwad.

Os am gynnal bore coffi neu ddigwyddiad arall
yn Neuadd Ogwen cysylltwch gyda
Dilwyn Llwyd
drwy e-bost **post@neuaddogwen.com** neu
drwy ymweld â'r neuadd i drafod.

OGWEN